# Y TINCER

PRIS £1

Rhif 327

Mawrth 2010

PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH


# Arian cymorth ar gyfer pysgota gwyllt yn anelu at ddenu mwy o ymwelwyr i'r ardal

Yn ystod y Sioe yn Llanelwedd fis Gorffennaf diwethaf, lansiodd Elin Jones, y Gweinidog dros Faterion Gwledig, brosiect o'r enw Pysgota Gwyllt Cymru - prosiect a fyddai yn helpu'r diwydiant ymwelwyr yng Nghymru. Arweinir y prosiect gan Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a chaiff ei ran-ariannu gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop trwy Lywodraeth Cynulliad Cymru, ac mae'n rhan o brosiect strategol Cyngor Cefn Gwlad Cymru 'Cymunedau a Natur'.

Nod y prosiect yw hyrwyddo pysgodfeydd Cymru gan wella cynefin a gwella cyfleoedd mynediad - gan gynnwys yr anabl, yr ifanc a hefyd yr henoed sy'n aml yn ei chael yn anodd i gyrraedd yr ardaloedd lle ceir yn aml y pysgod gorau. Daw nifer dda o ymwelwyr i Gymru, yn enwedig ym mis Ebrill a mis Mai ar gyfer pysgota brithyll, Mehefin a Gorffennaf ar gyfer pysgota sewin a mis Medi a mis Hydref ar gyfer pysgota eog.

Yn ystod y mis clywodd aelodau Cymdeithas Pysgota Aberystwyth yn eu cinio blynyddol gan Mark Sedgwick,Capel Dewi fod y cynllun a baratowyd ganddo ef a dau aelod arall o ddalgylch y Tincer (Alistair Dryburgh, Capel Bangor a Mike Legget, Dolau) ar gyfer cais i Bysgota Gwyllt Cymru ar gyfer gwella rhan o'r Afon Rheidol wedi bod yn llwyddiannus. Bydd y grant yn tua £40,000 - a bydd yr arian yn cael ei ddefnyddio yn ofalus i wella cynefinoedd pysgod a gwella mynediad mewn lleoliadau ar hyd y Rheidol.

Credai Alistair y byddai yr arian yn gymorth i newid yr afon i'r hyn oedd hi yn "yr hen ddyddiau da". A bydd Mike Legget, sy'n edrych ar ôl gwefan y Clwb ( gweler http://www.aber-angling.co.uk/) yn cofnodi y gwaith ar y wefan. Diolchodd Cadeirydd Cymdeithas Pysgota Aberystwyth - Charles Webb - yn gynnes i'r tri a llongyfarchodd hwy ar eu llwyddiant yn sicrhau grant o'r fath. Roedd yn rhagweld y byddai'r gronfa o fudd i economi yr ardal.

Dywedodd Mark Sedgewick iddo ef a'i dîm osod i'w hunan dasg heriol iawn ac roedd yn falch i'w cynllun datblygu manwl a chynhwysfawr gael ei dderbyn. Roedd yr Afon Rheidol yn afon ragorol ac mae'n boblogaidd gyda thrigolion lleol ac ymwelwyr. Mae'r ffaith i'r diweddar Malcolm Edwards ddal mwy na 50 o sewin bwysai dros 10 pwys yn dangos cystal afon yw'r Rheidol ar gyfer pysgotwyr.



Swyddogion Clwb Pysgota Aberystwyth a'r tri wnaeth y cais llwyddiannus yn dathlu ar lan yr Afon Rheidol. Charles Webb (Cadeirydd), Peredur Eklund (Ysgrifennydd), Mark Sedgwick, Mark Leggett, Alistair Dryburgh a Meurig Lewis (Trysorydd).

## Dathlu Gŵyl Ddewi yn y Borth



Dyma lun o Lauren yn mwynhau ei chawl yn y Borth.

# Y TINCER

- un o bapurau bro Ceredigion | Sefydlwyd Medi 1977

ISSN 0963-925X | Rhif 327 | Mawrth 2010



Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru

CYDNABYDDIR CEFNOGAETH BWRDD YR IAITH GYMRAEG



**SWYDDOGION**

**GOLYGYDD** - Ceris Gruffudd
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail
Penrhyn-coch ☎ 828017
Rhoshelyg@btinternet.com

**TEIPYDD** - Iona Bailey

**CYSODYDD** - Dylunio GraffEG ☎ 832980

**CADEIRYDD -** Mrs Llinos Dafis, Cedrwydd, Llandre ☎ 828262

**IS-GADEIRYDD -** Elin Hefin, Ynyswen, Stryd Fawr, Y Borth ☎ 871334

**YSGRIFENNYDD** - Anwen Pierce
46 Bryncastell, Bow Street ☎ 828337

**TRYSORYDD** - Paul Bevan, Felin Ddewi,
4 Glanceulan, Penrhyn-coch ☎ 820 583
bevan.paul@gmail.com

**TREFNYDD Y CYFEILLION** - Bryn Roberts,
4 Brynmeillion, Bow Street ☎ 828136

**LLUNIAU** - Peter Henley
Dôleglur, Bow Street ☎ 828173

**TASG Y TINCER -** Anwen Pierce

**GOHEBYDDION LLEOL**

**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
Mrs Beti Daniel, Glyn Rheidol ☎ 880 691

**Y BORTH**
Elin Hefin, Ynyswen, Stryd Fawr
elin.john@yahoo.co.uk

**BOW STREET**
Mrs Mair Lewis, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
Lynn Phillips, 1 Cae'r Odyn ☎ 820908
Anwen Pierce, 46 Bryncastell ☎ 828 337

**CAPEL BANGOR/PEN-LLWYN**
Mrs Aeronwy Lewis, Rheidol Banc
Blaengeuffordd ☎ 880 645

**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
Dai Evans, Fferm Fronfraith, Comins-coch,
☎ 623660
Alwen Griffiths, Lluest Fach ☎ 880335
Elwyna Davies, Tyncwm ☎ 880275

**DÔL-Y-BONT**
Mrs Llinos Evans, Dôlwerdd ☎ 871 615

**DOLAU**
Mrs Margaret Rees, Seintwar ☎ 828 309

**GOGINAN**
Mrs Bethan Bebb, Penpistyll,
Cwmbrwyno ☎ 880 228

**LLANDRE**
Mrs Mair England Pantyglyn, Llandre ☎ 828693

**PENRHYN-COCH**
Mairwen Jones, 7 Tan-y-berth ☎ 820642

**TREFEURIG**
Mrs Edwina Davies, Darren Villa
Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296


# DYDDIADUR Y TINCER

Y DYDDIAD OLAF Y BYDD GOHEBWYR LLEOL YN DERBYN DEUNYDD AR GYFER Y RHIFYN NESAF FYDD **EBRILL 8** AC **EBRILL 9** I'R GOLYGYDD. DYDDIAD CYHOEDDI EBRILL 18 **SYLWER AR Y DYDDIADAU OHERWYDD GWYLIAU'R PASG**

**MAWRTH 19** Dydd Gwener Eisteddfod Uwchradd yr Urdd Rhanbarth Ceredigion ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid o 9.00 y b

**MAWRTH 19** Nos Wener 'Byd y Ffotograffydd' Marian Delyth Cymdeithas Lenyddol y Garn

**MAWRTH 25** Nos Iau "Enwau caeau: eu gwerth o safbwynt hanes lleol". Sgwrs gan Rhian Parry yn Ysgoldy Bethlehem, Llandre am 7.30pm. Mynediad am ddim i aelodau; £2 i eraill. Croeso cynnes i bawb.

**MAWRTH 28** Nos Sul Cyngerdd Sul y Blodau yng Nghapel y Garn am 7.30 gyda Chôr Cantre'r Gwaelod, arweinydd Eleri Roberts, a Trystan Llŷr Griffiths, enillydd Gwobr Goffa Osborne Roberts yn Eisteddfod Genedlaethol Meirion a'r Cyffiniau, 2009. Llywydd: Dr Dafydd Huws, Caerffili Tocynnau: £5; £1 i blant

**EBRILL 5** Dydd Llun Y Pasg Sêl Cist Car yn Neuadd y Pentref, Capel Bangor; elw at y Sioe. Manylion oddi wrth Iola Evans 880863

**EBRILL 10** Nos Sadwrn Allan yn y Fan a Robin Huw Bowen yng Nghanolfan y Celfyddydau am 8.00

**EBRILL 17** Nos Sadwrn Cyngerdd ym Methel, Aberystwyth yng nghwmni Côr Ger-y-Lli a Rhys Taylor ac unawdwyr eraill am 7.00. Yr elw at Gronfa To'r Capel.

**EBRILL 23-24** Nos Wener a dydd Sadwrn Eisteddfod Gadeiriol Penrhyn-coch

**MEHEFIN 19** Dydd Sadwrn Taith Cymdeithas y Penrhyn i Fro Morgannwg yng nghwmni Iorwerth Davies. Manylion oddi wrth yr Ysgrifennydd – Ceris Gruffudd **Sylwer ar y newid dyddiad**

**Cofiwch droi yr awr YMLAEN awr nos Sadwrn 27 Mawrth**

## CYMANFA GANU GOGLEDD CEREDIGION 2010

yng Nghapel y Garn, Bow Street

**Dydd Sul Mai 9fed**
am 5.30 o'r gloch

**TREFN Y RIHYRSALS**
Nosweithiau Mercher am 7.00

**Mawrth 24 Seion Aberystwyth**
**Mawrth 31 Bethel, Tal-y-bont**
**Ebrill 14 Morfa, Aberystwyth**
**Ebrill 21 Horeb, Penrhyn-coch**
**Ebrill 28 Bethel, Aberystwyth**
**Mai 5 Garn, Bow Street**

## CYFEILLION Y TINCER

**Dyma fanylion enillwyr Cyfeillion Y Tincer Mis Chwefror 2010.**

£25 (Rhif 40) Menna Davies, 11 Maes Afallen, Bow Street.
£15 (Rhif 191) David England, Pant-y-glyn, Llandre.
£10 (Rhif 61) Jane James, Gilwern, Clarach.

Fe dynnwyd y rhifau buddugol gan ein golygydd yn dilyn ymarfer Côr Cantre'r Gwaelod Nos Sul Chwefror 21ain 2010 Cysylltwch â'r Trefnydd, Bryn Roberts, 4 Brynmeillion, Bow Street, os am fod yn aelod.

Am restr o Gyfeillion y Tincer 2009/10 gweler www.trefeurig.org/uploads/cyfeilliontincer2009.pdf

**Y Tincer drwy'r post** - Pris 10 rhifyn - £10 (£19 i wlad y tu allan i Ewrop). Cysylltwch â Haydn Foulkes, 7 Maesyrefail, Penrhyn-coch, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3HE. ☎ 01970 828 889

**Camera'r Tincer** - Cofiwch am gamera digidol y Tincer – mae ar gael i unrhyw un yn yr ardal fydd am ei fenthyg i dynnu llun ar gyfer y papur o gyngerdd, cinio neu ddigwyddiad a gynhelir o fewn ein dalgylch. Fe'i cedwir gan Mrs Mair Lewis, 40 Maes Ceiro, Bow Street (☎ 828102). Os byddwch am gael llun eich noson goffi yn Y Tincer defnyddiwch y camera.

**Bydd *Y Tincer* nôl mewn lliw ym mis Ebrill!**

**At Gwsmeriaid Amaethwyr Clynderwen a Cheredigion**

Annwyl Gyfeillion

Mae wedi dod yn amser tynnu'r sbectol oddi ar fy nhrwyn, datgysylltu'r cyfrifiadur ac ymddeol.

Dymunaf ddiolch i chi gyd am eich cefnogaeth yn ystod y 43 mlynedd y bûm yn gwasanaethu yn y gangen yn Aberystwyth. Rwyf wedi mwynhau fy amser yn eich cwmni, cael clonc dros y cownter a llawer o dynnu coes. Mae'n hyfryd gweld y fferm deuluol yn fyw ac yn iach — mae'r wyrion nawr wrth y llyw, ond Taid oedd yna pan ddechreuais i!

Ni fyddwn wedi gallu cyflawni'r gwaith ar fy mhen fy hun, mae fy nyled yn fawr i'm cydweithwyr ar hyd y blynyddoedd.

Diolch o galon i chi i gyd.

Yn gywir
Alan Co-op (cyn-Reolwr)
Awelon
Bontnewydd
Aberystwyth

# 30 Mlynedd 'Nôl



Mr Jack Hughes, Rhydypennau a Mr Arthur Thomas, Penrhyn-coch yn cael sgwrs dechnegol am y wal gerrig yr oedd Mr Hughes ar y pryd yn ei chodi wrth fynediad Cae Chwarae'r Penrhyn. Y mae'r wal wedi ei chwblhau erbyn hyn, ac y mae'n werth gwneud trip i Benrhyn-coch i gael golwg arni.

Llun: Bill Evans.
*Y Tincer* Mawrth 1980

# Cronfa Eleri 2009

Am yr unfed tro ar ddeg cyfarfu Pwyllgor Cronfa Eleri yn ddiweddar i drafod y ceisiadau a ddaeth i'r Gronfa eleni am gymorth sy'n deillio o elw fferm wynt Mynydd Gorddu. Cymeradwyodd Cwmni Amgen, sy'n rheoli'r fferm wynt, yr argymhellion. Ychydig dros £14,300 oedd ar gael i'w rannu o Gronfa 2009. Roedd 13 cais am gymorth wedi dod i law, am gyfanswm o dros £27,000 — sef tua dwywaith y swm oedd ar gael. Rhaid felly oedd i'r Pwyllgor edrych yn agos iawn ar y ceisiadau i benderfynnu pa rai oedd y rhai mwyaf haeddiannol. Dyma restr o'r ceisiadau llwyddianus, gyda'r swm a gynigir iddynt gan y Gronfa: Cylch Meithrin Penrhyn-coch (£1,000); Capel Bethesda, Tynant (£1,000); Cymdeithas Papur Pawb (£475); Grŵp crefftau Genau'r-glyn (£300); Clwb Pêl-droed Ieuenctid Tal-y-bont (£1,700); Eglwys St Pedr Bont-goch (£5,533); Cylch Meithrin Rhydypennau (£2,000); Llwybr Llên Llanfihangel Genau'r-glyn (£2,000); Cylch Ti a Fi Llandre (£300). Rhaid pwysleisio mai cyfraniadau at gynlluniau penodol oedd rhain i gyd, gyda rhai ohonynt yn galluogi'r ymgeiswyr i gaffael cyfraniadau o gronfeydd eraill yn ychwanegol. Nid yw'n bosib i Gronfa Eleri roi cymorth tuag at wariant rheolaidd cymdeithasau (h.y. arian refeniw). Daw'r rownd bresennol o cymorthdaliadau a'r cyfanswm a gyfranwyd gan Gronfa Eleri, i gefnogi 166 o gynlluniau mawr a bach ers 1998, i tua £140,000. Disgwylir y bydd swm tebyg ar gael i'w rannu eto yn Ionawr 2011 a bydd Ysgrifennydd yn derbyn ceisiadau yn ystod mis Rhagfyr 2010.

"OS MÊTS"
Yn cyflwyno
NOSON I IEUENCTID GOGLEDD CEREDIGION
yng nghwmni
"SOCIETY PROFIAD"
[Grwp Hip-Hop Cristnogol]
YN NEUADD TAL - Y - BONT
NOS WENER, MAWRTH 28ain 2010
7 hyd 10 o'r gloch yr hwyr
Tocyn: £3
Dewch i gefnogi a mwynhau

## Enillydd

Enillydd y DVD o Sleep furiously oedd Richard Wyn Davies, Ger-y-llan, Penrhyn-coch. Llonyfarchiadau iddo. Yr ateb oedd Gideon Koppel. Gellir prynu y DVD yn Garej Penrhyn-coch

## RHAGHYSBYSIAD

**Nos Sadwrn, Gorffennaf 19**

Cyngerdd gan Gôr Merched y Gaiman (arweinydd: Edith MacDonald; cyfeilydd: Hector Ariel MacDonald; a'r unawdwyr Billy Hughes a Marcelo Griffiths yn Aberystwyth

ytincer@googlemail.com

James Memorials
Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI
A BUSNESAU
Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn (01970) 820 111

CTE
C. TREFOR EVANS
TREFNWR ANGLADDAU
"PLAS BRONGENAU"
LLANDRE
ABERYSTWYTH
Ffôn 820013

GWYNFOR DAVIES
ADEILADYDD

Manteg
Bow Street
Ffôn 828531

Defnydd Melanie
The Old Exchange Stores
Capel Bangor
(01970) 880 811
melaniefabrics@btopenworld.com
www.melaniefabrics.co.uk
Arbenigwyr mewn cwiltio a chlytwaith
Dosbarthiadau nos a dydd

# Y BORTH

## Suliau Ebrill

Y Gerlan
**4** Oedfa Basg yr Ofalaeth (P) yn Nghapel Seion am 10.00 / Oedfa Undebol yr Ofalaeth (A) ym Methel, Tal-y-bont am 10.00 a 2.00.
**11** Oedfa am 2.00. Mr Rhodri Glyn.
**18** Oedfa am 10.00. Y Parch. Richard Lewis
**25** Uno yn Y Babell am 2.00

## Siop Roy

Trist ydy adrodd y bydd siop 'Lynbourne Newsagent', sef siop bapur Roy Jones yn cau o fewn yr wythnosau nesaf. Bu'r siop yn sefydliad hanfodol yng nghanol y pentref am flynyddoedd maith, ond erbyn hyn mae Roy yn teimlo fod yr amser wedi dod i fyw bywyd mwy hamddenol.

Daeth mam Roy, Mrs. Gladys Jones i'r Borth o Stourbridge yn y 30au hwyr. Bu'n gweithio i ffrindiau yn y pentref ac yn byw yn y Borth pan gyhoeddwyd yr Ail Ryfel Byd. Ar ôl priodi Allan Jones, a oedd yn drydanwr wrth ei alwedigaeth, pahaodd i fwynhau bywyd hir a hapus yma yn y Borth.

Ganwyd Roy ym 'Morolwg', aeth ymlaen i'r hen ysgol yn y pentre ac ymlaen i Ardwyn. Bu ym Mhrifysgol Abertawe am dair blynedd a derbyniodd B. Sc. mewn Metaleg. Aeth ymlaen am flwyddyn ymhellach i Brifysgol Llundain a derbyn M.Sc. mewn Gwyddor Cyrydu (Corrosion Sciences). Ar ôl cyfnod o ddeuddeng mlynedd yn gweithio yn y maes yma yn ne Lloegr, penderfynodd ddychwelyd i'r Borth ar farwolaeth ei dad ym 1980. Prynodd y siop yr un flwyddyn, lle bu'n 'fachgen papur' yn grwt ifanc.

Felly, diolchwn i Roy am ei wasanaeth hir yn y pentref gan ymestyn pob dymuniad da iddo yn ei ymddeoliad. Beth bynnag, gan ei fod wedi ymgymryd â'r swydd o Ofalwr y Neuadd Goffa, rwy'n siwr y bydd yn dal i gynnig gwasanaeth arbennig o dda i drigolion y pentref. **RW**




## Cymdeithas Gymraeg y Borth a'r Cylch

Nos Fercher, 10fed o Chwefror yn festri Capel y Gerlan mwynhaodd y Gymdeithas noson ddifyr yng nghwmni Mrs. Ann Mason o Lanfarian.

Pwnc y noson oedd 'Blodau'r Beibl' ac fe siaradodd Mrs. Mason am rai o'r pedwar ugain o rywogiaethau y mae wedi dod o hyd iddynt yn y Tir Sanctaidd ar ôl darllen amdanynt yn y Beibl.

Blodau'r maes yw'r rhan fwyaf ohonynt ac yn arwyddocaol yn nelweddiaeth Llyfrau'r Hen Destament, megis Llyfr Job, gan iddynt symboleiddio gobaith (ar ôl gaeaf diffrwyth) ac eto'n symbol o o fyrder bywyd, gan iddynt wywo a syrthio pan ydynt ar eu harddaf. Ymysg y blodau mwyaf cyffredin ym Mhalesteina daw'r saffrwn, yn enwedig ym mynyddoedd Carmel.Yn nyffryn Saron ceir blodau'r gwynt ac yn eu mysg Rhosyn Saron, nad yw'n rhosyn o gwbl ond yn un o deulu'r narsisws. A phwy fuasai wedi meddwl nad lili mo 'lili'r dyffrynnoedd' ond tiwlip coch? Yn y maesydd fe geir yr iris, y pabïau coch a'r syclamen y sonir amdanynt yn emynau Ann Griffiths a William Williams. Mae Caniad Solomon yn llawn o ddelweddau Natur i ddisgrifio Natur yr Arglwydd. A ddisgrifir fel 'Pren afal'. Ym Moreia tyf y 'menora' neu flodau'r cerrig sy'n edrych fel cannwyllbrennau bychain. Yn y tir anial, daw'r pren almwn i hebrwng y Gwanwyn; mae'r almwn yn bwysig i Iddewon gan iddo dyfu yn yr anialwch ac mae'n cynhyrchu blodau hardd a ffrwythau iachus.

Diolchwyd i Mrs. Mason Davies gan y Parchg Wyn Rh. Morris, Cadeirydd y Gymdeithas Gymraeg, a fynegodd werthfawrogiad pawb o noson ddiddorol a dymunol dros ben. **E.E.**




### Cinio Gŵyl Ddewi Cymdeithas Gymraeg y Borth a'r Cylch

Y llun uchod oedd prif thema y gŵr gwadd eleni, Sulwyn Thomas. Cartwns gan Meirion Roberts sy'n coffau buddugoliaeth enwog Llanelli yn erbyn y Crysau Duon. Ynddo gwelir Carwyn James, Delme Thomas a Ray Gravel- tri sy'n werth eu coffau yng nghyswllt ein nawddsant fel enghreifftiau cyfoes o werthoedd da.

Cafwyd darpariaeth ardderchog yn y Clwb Golff ar Fawrth 5ed a hyfryd iawn oedd croesawu Des a Nansi yn ôl i'r pentre. Cyflwynwyd anrheg i'r ddau- llun o draeth y Borth gan Janet Baxter fel arwydd o werthfawrogiad o'u gwasanaeth clodwiw i'r Gymdeithas dros flynyddoedd lawer ac i ddymuno'n dda iddynt yn eu cartref newydd yng Nghaerfyrddin.



## Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Stuart a Christine Lloyd, Penlon, ar farwolaeth mam Stuart yn ddiweddar.

## Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau mawr iawn i Hanna Prytherch, Gwynt y Môr, y Borth am ennill Cwpan Rhian a Meinir yn Eisteddfod Gŵyl Ddewi Ysgol Gymraeg Aberystwyth. Gwobrwyir y cwpan i'r disgybl gyda'r marciau ucha yn yr Eisteddfod. Da iawn wir Hanna!'

## Genedigaeth

Croeso i Eric John Stockford! Ganwyd Eric am 4.59 y bore ar ddydd Mercher y 10fed o Chwefror ym Mron-glais, yn

pwyso 8 pwys a hanner owns! Mae ei frawd mawr wrth ei fodd, hefyd ei fam a'i dad Sian a Wil (heb son wrth gwrs am Mam-gu a Dad-cu Hubbard!

### Colled

Trist yw nodi marwolaeth Mr. Berwyn Lewis, Pant-glas, a fu farw ar ddydd Gwener y 5ed o Fawrth, wedi cystudd anodd. Bwriedir cynnwys coffa cyflawn ohono yn rhifyn mis Ebrill. Yn y cyfamser, cydymdeimlwn â Menna a'r teulu oll.

### CLWB GOLFF Y BORTH & YNYS-LAS

Â'r clwb yn dathlu ei 125 mlwyddiant eleni, dewiswyd Anna Hubbard, un o'r is-lywyddion, yn Gadeirydd Pwyllgor Dewis Timau Merched Undeb Golffio Cymru.

Yn 2005 gwahoddwyd Anna i ddod yn Ddewisydd Rhyngwladol i Gymru gan symud yn ei blaen yn sydyn i reoli Tîm Merched y Gemau Rhyngwladol Cartref yn yr un flwyddyn. Diolch i waith caled ac ymroddiad tîm o bobl, yn cynnwys y Capten, yr Hyfforddwr a staff Undeb Golffio



Anna Hubbard

Cymru, llwyddodd y merched i sicrhau'r canlyniadau gorau ers dros ganrif drwy ennill y Gêmau Rhyngwladol Cartref yn 2008 a 2009. Wedyn, teithiodd Anna gyda'r tîm merched fel rheolwr i sawl digwyddiad rhyngwladol.

Hi yw Cadeirydd Pwyllgor Dewis Timau Merched Cymru a bellach cafodd ei gwahodd i fod yn gapten ar Ferched Cymru. Mae 2010 yn mynd i fod yn flwyddyn gyffrous a phrysur gydag amserlen drom o sesiynau hyfforddi a phencampwriaethau. Pencampwriaeth Agored yr Alban i Ferched ym mis Ebrill fydd y gyntaf, i'w dilyn gan eraill, o gystadleuaeth ryngwladol yn Iwerddon i Bencampwriaeth Timau Ewrop yn Denmarc.

Diolch i Anna Hubbard a'i thebyg, sy'n rhoi o'u hamser a'u hymdrech, mae'r rhagolygon i golff yng Nghymru yn dda iawn gyda rhai o ferched mwyaf talentog Gwledydd Prydain yn chwarae yn ein timau.

Yn y cyfamser, mae cystadlaethau'r clwb wedi parhau er gwaetha'r tywydd gwael, gyda'r aelodau'n gwneud yn fawr o bob cyfle i chwarae ar y cwrs wrth i flwyddyn bwysig y clwb fynd rhagddi.




## DYSGWR Y MIS - GRACE BAILEY

**Beth yw eich enw?** Fy enw yw Grace Bailey ac rydw i'n 38 oed

**Ers faint ydych chi wedi bod yn dysgu Cymraeg?** Rydw i wedi bod yn dysgu Cymraeg ers yr ysgol gynradd. Roedd pawb yn cael tipyn bach o Gymraeg bob wythnos ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

**Ble oeddech chi'n dysgu Cymraeg?** Roedd y gwersi Cymraeg yn yr ysgol Gyfun yn fwy ffurfiol a mwynheais i awyrgylch yr Adran Gymraeg- dosbarth lliwgar, trips i Langrannog a Glan-llyn, cyfle i gystadlu yn Eisteddfod yr Urdd, dawnsio gwerin yn ystod amser cinio- ac athrawon brwdfrydig! Dewisais i wneud Lefel 'A' a dyma pryd y dysgais am lenyddiaeth a diwylliant Cymru. Ar y pryd roedd athrawon yn canolbwyntio ar batrymau iaith, ynghŷd â geirfa wrth gwrs, felly ar ddiwedd y cwrs roedd fy iaith lenyddol yn lot well na fy iaith sgyrsiol i! Swnio'n naturiol sydd wedi cymryd yr amser! Es i ar gwrs dosbarth nos o'r enw 'Croesi'r Bont', roedd hynny i fod i helpu'r dysgwyr i fod yn hyderus a mwy idiomatig.

**O le ydych chi'n dod yn wreiddiol?** Rydw i'n dod o Ben-y-bont ar Ogwr yn wreiddiol, ond wedi bod yn byw yn yr ardal ers 1992 pan symudais i Aberystwyth i astudio yn y Brifysgol. Rydw i'n cofio cerdded i'r Borth ar lwybr yr arfordir a gwnaeth yr olygfa o bentref hir ar lan y mor argraff fawr arna'i.



**Pryd, neu gyda phwy ydych chi'n siarad Cymraeg?** Roedd yn naturiol i fi ddewis siarad Cymraeg gyda fy mhlentyn cyntaf. Mae pawb yn sylweddoli erbyn hyn fod magu plant yn ddwyieithog yn rhoi'r gorau o ddau fyd iddyn nhw. Mae gyda ni dair merch nawr, Mali Hedd, Morwen ac Elen Haf. Mae'n fendigedig clywed Mali neu Morwen yn egluro rhywbeth i Elen drwy'r Gymraeg, ac mae'n wir i ddweud fod yr holl deulu yn cael hwyl gyda'r Gymraeg a'r Saesneg ac yn gysurus iawn efo'r ffaith ein bod ni'n siarad 'half a hanner'! Ar hyn o bryd rwy'n gweithio yn fferyllfa'r pentref, felly mae gen i ddigon o gyfle i i sgwrsio gyda'n cwsmeriaid. Dwi hefyd wedi gweithio drwy'r Gymraeg yn y swyddfa dwristiaeth lleol ac yn Ynys-las ar y Warchodfa.

Mae dysgu Cymraeg yn broses gydol oes. Ar brydiau, dwi wedi ffeindio fe'n hawdd i symud ymlaen a gwella ac ar brydiau eraill dwi wedi teimlo fel mod i wedi cyrraedd 'dead end'. Ond yn y pendraw, mae gen i fynediad i ddau fyd- a dwi'n ddiolchgar am hynny!

# PEN-LLWYN A CAPEL BANGOR

### Genedigaeth

Dymuniadau gorau i Geraint a Mari Williams, Nantfach, ar enedigaeth eu baban cyntafanedig ar 10ed o Chwefror. Mae Erin Fflur yn un o bymtheg o ŵyrion sydd gan Verena Williams, Cefnllidiart, erbyn hyn. Llongyfarchiadau mam-gu, a thad-cu Fred Williams Troedrhiwgoch.

Hefyd ganwyd merch fach i Eluned a Gareth Lewis, Brynmeirion, ar y 5ed o Chwefror, a hynny yn gynt na'r disgwyl. 'Roedd yn amser pryderus i'r teulu, pan orfu i Eluned fynd i Ysbyty Singleton i roi genedigaeth (33 wythnos). Ond mae Sara Mair a'i mam yn dod ymlaen yn iawn erbyn hyn. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i'r teulu bach hwn hefyd, heb anghofio Mam-gu a Tad-cu, Mr a Mrs Garth Hughes, Brynawelon.

### Cydymdeimlad

Estynnwn ein cydymdeimlad â Mr a Mrs Gary Allen, Tŷ Capel, Penny wedi colli ei mam yn ddiweddar, a oedd yn byw yn Walsall.

### Damwain

Da yw deall fod Mr Arnold Evans yn well ar ôl rhoi ei ysgwydd allan o le, ar ôl y gwymp a gafodd y mis diwethaf. Ceisio gosod netin oedd ar y pryd yn sied y lloi bach, i atal adar yr eira, sydd yn ôl pob sôn, yn bla i'r ffermwyr ym mhob man. Mwy o ofal y tro nesaf Arnold!

### Pen blwydd Arbennig

Cyfarchion cynnes yr ardal i Mrs Elizabeth Jones, Rhoslwyn, a phen blwydd hapus iddi yn 90 mlwydd oed ar Mawrth 30ain. Pob dymuniad da i Anti Lisabeth, fel y gelwir hi gan amryw, sydd ar hyn o bryd yn cael gofal da yng Nghartref Tregerddan. Mwynhewch eich diwrnod.

### Noson Goffi Haiti

Cynhaliwyd noson goffi yn festri Capel Pen-llwyn, nos Iau 25ain o Chwefror, yr elw tuag at y drychineb ofnadwy yn Haiti. Daeth rhyw ugain o oedolion a phlant ynghyd, am baned, a phrynu o'r stondin gacennau. Gwnaethpwyd dros dri chant o bunnoedd. Diolch yn fawr am eich cyfraniadau, rhai wedi eu derbyn ar ôl y noson, a diolch i bawb a fu yn helpu ar y stondin a gwneud y te a'r coffi.



### Llwyddiant

Da iawn Amy Dryburgh, am ennill cystadleuaeth stori fer a gyhoeddwyd mewn llyfr "Mini Sagas", ynghyd a disgyblion o ysgolion eraill, o amgylch Cymru.

### Merched y Wawr – Cangen Melindwr

Er mwyn dathlu Gŵyl Ddewi, aed i westy Plas Antaron ar yr ail o Fawrth. Gofynnwyd gras bwyd gan Heulwen Lewis. Mwynhaodd yr aelodau bryd o gawl a tharten afalau yng nghwmni ei gilydd.

Gan ein bod yn cyfarfod rhwng dydd gŵyl Ddewi a Diwrnod y Llyfr, roedd yn briodol cael awdur yn wraig wadd, un sydd bellach wedi ymgartrefu yn ein plith. Croesawyd Caryl Lewis gan ein llywydd, Beti Daniel.

Clywsom gan Caryl sut y cafodd yr awydd i fod yn awdur yn dilyn gwahanol brofiadau diddorol a hynny yn bennaf yn y Gelli Gandryll. Mae Caryl yn ysgrifennu llyfrau ar gyfer ystod eang o oedran. Diddorol oedd deall pam yr aeth ati i ysgrifennu'r gyfres am Bili Boncyrs i blant ifanc. Daeth yn amlwg yn ystod y noson ei bod yn ymchwilio'n fanwl cyn mynd at y broses o ysgrifennu. Fel y gellid disgwyl roedd nifer o'r aelodau yn awyddus i glywed am *Martha, Jac a Sianco* ac am ei nofel ddiweddaraf, Naw Mis ac ni chawsant eu siomi.

Diolchwyd i Caryl Lewis am noson ddiddorol gan y llywydd. Enillwyd y gwobrau raffl gan Gwenda Morgan, Eirwen McAnulty, Llinos Evans a Hannah Davies.

# LLANDRE

### Merched y Wawr Llandre

Ar y trydedd nos Lun ym mis Ionawr yng nghanol tywydd garw, yn ffodus Jane Raw Rees sy'n byw yma yn Llandre oedd ein gwestai. Cawsom noson gartrefol yn gwrando ar Jane yn sôn am ei gwaith gyda'r Cyngor Henoed. Wrth sgwrsio a holi fe gawsom lawer iawn o wybodaeth werthfawr. Diolch yn fawr i Jane am noson hyfryd ac am ei pharodrwydd i ddod atom.

Dathlu Gŵyl Ddewi (er braidd yn gynnar) yn y Clwb Golff yn y Borth oedd yr arlwy ym mis Chwefror. Cawsom bryd hyfryd o fwyd mewn awyrgylch bleserus iawn. Mr a Mrs Charles Arch o Bontrhydfendigaid oedd ein gwesteion ac roedd pawb wrth eu bodd yn gwrando ar lais cyfarwydd Charles Arch nid yn unig yn edrych yn ôl i adeg ei blentyndod, ond hefyd yn edrych ymlaen at y dyfodol. Bu'n noson arbennig iawn a diolch i'r gwesteion a'r clwb golff am hynny. Roedd un o'n haelodau selocaf Elina Davies yn methu bod yn bresennol gan iddi dderbyn triniaeth yn Nhreforys ac roedd pawb yn meddwl amdani, ond braf yw nodi ei bod adre nawr ac yn gwella. Danfonwn ein cofion ati.

### Treftadaeth Llandre

**RHAGLEN 2010**
Mawrth 25 — Enwau caeau — eu gwerth o safbwynt hanes lleol — Rhian Parry
Ebrill 29 - Taith i wrando ar gan yr adar - Coed Llandre - Caroline de Carle
Mai 27 — Profiadau milfeddyg yn Cambodia — Philip Thomas
Gorffennaf 29 — Taith ar hyd Llwybr Diwylliannol Llandre — Wynne Melville Jones
Medi 30 — Gwisgoedd Cymreig — Michael Freeman
Hydref 28 — Ymweliad ag RSPB Ynys-hir — Caroline de Carle
Tachwedd 25 — Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol
Cynhelir y cyfarfodydd fel arfer yn Ysgol Bethlehem, Llandre nos Iau olaf y mis, gan gychwyn am 7.30. Mynediad am ddim i aelodau (ar ol talu tal blynyddol o £5). Codir tal o £2 y cyfarfod fel arall — Croeso i bawb.

### Llongyfarchiadau

Croeso i Emily, merch fach Elisabeth a Richard a anwyd yn Awstralia. Wyres i Barbara a Huw Davies, Sibrwd-y-Coed, Lôn Glanfred.
Llongyfarchiadau i Hilary a Ceri Davies, Tan y Gaer ar ddod yn fam-gu a tad-cu unwaith eto. Ganwyd merch fach i Angharad a'i gŵr.

### Brysiwch wella

Da yw deall fod Elina Davies, Bronallt gartref ac yn gwella, ar ôl derbyn triniaeth yn Ysbyty Treforys

Hefyd Nia, Tyddyn Llwyn, sydd wedi derbyn triniaeth yn yr ysbyty yn Abertawe. Dymunwn wellhad buan i'r ddwy.

### Yn yr ysbyty

Anfonwn ein dymuniadau gorau i Les Breese, Dolwyn, sydd yn ysbyty Bron-glais ar hyn o bryd.

### Eglwys Llanfihangel Genau'r Glyn

Dymunwn ymddeoliad hapus i'r Parchg Brian Thomas ar ôl 14 mlynedd fel ficer y Plwyf. Gobeithio bydd Brian a Gail yn hapus yn ôl yn eu cartref yn Llambed.

### Enillydd Eisteddfodol

Llongyfarchiadau i Osian Penri, Lluarth - myfyriwr ym Mhrifysgol Caerdydd - ar ddod yn gydradd drydydd ar gyflwyniad theatrig digri yn yr Eisteddfod Ryng-golegol yn Aberystwyth ganol Chwefror.

JONES JET WASH
Golchi Arbenigol
• Peintio Shediau a lloriau
• Golchi Tai a Shediau fferm (toeon, gwteru, fasias, tai gwydr a.y.yb)
•Golchi palmentydd a hewlydd
Am fwy o wybodaeth ffoniwch Trefor ar 01970 820 934 neu 07967 654720

# ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL

### Cydymdeimlad

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Nancy Evans, Ty-poeth, ar farwolaeth ei chefnder - Winston Kendall o Swydd Warwick. Yn yr un modd cydymdeimlwn â Mair Davies, Penrhyn-coch, aelod ffyddlon o Gapel Llwyn-y-groes ar farwolaeth sydyn ei brawd yng nghyfraith ym Mhenrhyndeudraeth.

### Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Eirlys Davies, Caehaidd, ar enedigaeth ei gor-wyres, merch fach i Nia a Steve, chwaer i Steffan Jac a wyres fach gyntaf i Lewis a Margaret Griffiths, Rhydyfelin.

### Diolch

Hoffai Dorothy Kirton, Maesawelon, ddiolch yn ddiffuant i bawb am eu cymorth iddi hi a Mercia yn ystod ei salwch yn ddiweddar. Mae yn gwerthfawrogi consyrn pawb amdani yn fawr.

### Urdd y Benywod

Nos Lun, Mawrth 1af, cynhaliwyd y Cawl Blynyddol. Bu y gwragedd, Nancy, Gwen, Norma a Carol yn brysur iawn yn paratoi y cyfan a diolch i Carol am gael defnyddio ei chegin ar fyr rybudd. Cawsom ein diddanu ar y noson gan Jez Danks o Amgueddfa Ceredigion a bu yn adrodd straeon a chwarae y ffidl. Diolch i Ann Ellis am drefnu yr adloniant. Gorffennwyd y noson drwy dynnu y raffl a diolchodd Carol i bawb am wneud y noson yn un llwyddiannus iawn.

### Cwrdd Gweddi y Chwiorydd

Tro Capel Llwyn-y-groes oedd hi eleni i gynnal y Cwrdd a daeth aelodau Eglwys Capel Bangor, Capel Pen-llwyn, a Dyffryn, Goginan, ynghyd at ei gilydd. Arweinydd y cyfarfod oedd Beti Daniel a'r organyddes oedd Delyth Davies o Pen-llwyn. Cafwyd anerchiad rymus iawn gan Mrs. Iola Alban o Lanilar a gorffennwyd y noson gyda lluniaeth ysgafn wedi ei baratoi gan wragedd Llwyn-y-groes.

# MADOG

### Suliau Ebrill

**Madog** - 2.00
**4** Oedfa'r ofalaeth yn y Garn am 10.00
**11** Elfed ap Nefydd Roberts
**18** Bugail
**25** J.E. Wynne Davies

# DÔL-Y-BONT

### Gwellhad buan

Dymunwn wellhad buan i Oliver Patrick, Felin Fawr, sydd wedi bod yn yr ysbyty yn ddiweddar.

### Cydymdeimlad

Cydymdeimlir â Meirion, Annette, Leri, Mark a Jason Lewis, Cysgod y Gwynt, ar farwolaeth tad Meirion, sef Mr. Berwyn Lewis, Pant-glas., a fu farw ddechrau mis Mawrth.

# DOLAU

Glesni a Teleri Morgan, Ger-y-nant, Dolau, dwy o ferched ifanc Ysgol Rhydypennau a ddewiswyd i fod yn rhan o Basiant y Plant yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd eleni. Pob hwyl iddynt.




**Dweud eich dweud**

Dim gwasanaeth Cymraeg?

Anfodlon â'r gwasanaeth Cymraeg a gawsoch?

Am gyngor ynghylch eich hawl i gwyno am gorff cyhoeddus a sut i wneud hynny, cysylltwch â:

Bwrdd yr Iaith Gymraeg,
Siambrau'r Farchnad, 5-7 Heol Eglwys Fair,
Caerdydd, CF10 1AT

029 2087 8000
post@byig-wlb.org.uk byig-wlb.org.uk

Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru / Sponsored by Welsh Assembly Government

BWRDD YR IAITH GYMRAEG • WELSH LANGUAGE BOARD

**SIOP A SWYDDFA BOST PENRHYN-COCH**
Perchennog: Lawrence Kelly
Ar agor
Llun - Sadwrn
7 y bore - 9 yr hwyr
Sul
7 y bore - 7 yr hwyr
papurau dyddiol a'r Sul
llyfrgell fideo
cardiau cyfarch
siop drwyddedig
FFÔN: 828312

**Clwb Cymdeithasol Pêl-droed Penrhyn-coch**
CINIO DYDD SUL
PRYDAU BAR
PARTÏON
BWYDLEN BWYTY
ADLONIANT
AR AGOR O 5:30 P.M. NOSWEITHIAU IAU A GWENER AM BRYDIAU TEULUOL

# BOW STREET

### Oedfa Gŵyl Ddewi Plant Gofalaeth y Garn

Daeth cynulleidfa niferus i Gapel y Garn bore Sul, 28 Chwefror ar gyfer gwasanaeth arbennig i ddathlu gŵyl ein Nawddsant. Cymerwyd rhan gan blant ac ieuenctid yr ysgol Sul, a chafwyd neges bwrpasol gan y gweinidog ar y thema: 'Gwnewch y pethau bychain'. Cyflwynwyd y casgliad tuag at Bapur Sain y Deillion yng Ngheredigion.





Gwasanaeth Gŵyl Ddewi Gofalaeth y Garn, bore Sul, 28 Chwefror - un o'r plant a'r llall o'r gynulleidfa.

### Suliau Ebrill

**Capel y Garn**
**http:www.capelygarn.org**
10 a 5
**4** Oedfa'r ofalaeth
**11** Elfed ap Nefydd Roberts
**18** Bugail
**25** J.E. Wynne Davies

**Noddfa**
**4** Oedfaon Undebol Sul y Pasg ym Methel, Tal-y-bont, am 10.00 a 2.00.
**11** Oedfa am 10.00. Mr Rhodri Glyn.
**18** Uno yn y Garn am 10.00.
**25** Oedfa am 2.00. Y Parchg Elwyn Jenkins

### Merched Y Wawr, Rhydypennau

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Gwenda a llongyfarchwyd pum aelod ar ddod yn nain neu fam-gu yn ystod y misoedd diwethaf sef, Margaret, Ray, Beryl (Dolau), Bethan ac Enid. Treuliwyd peth amser yn trafod gohebiaeth y mudiad yn ranbarthol a chenedlaethol. Adroddwyd bod swm o £134 wedi ei drosglwyddo i Ambiwlans Awyr Cymru sef, casgliad y canu carolau cyn y Nadolig.

Yn dilyn, cafwyd orig ddiddorol o "Hwyl i'r corff a'r meddwl" drwy chwarae gêmau wist, dominos, sgrabl a bowlio. Enillwyd y raffl gan Linda a pharatowyd y te gan Rhiannon a Lisa. Edrychwn ymlaen at ein cyfarfod ar Mawrth 8fed pryd y byddwn yn dathlu pen blwydd y gangen yn ddeugain oed yng Nghlwb Golff y Borth.

Bu pum aelod o Ferched y Wawr Rhydypennau yn rhedeg/cerdded yn y Ras Gwisg Gymreig Ddydd Sul, 28 Chwefror, yr elw yn mynd at Eisteddfod yr Urdd Ceredigion 2010. Ni enillodd yr un ohonynt y ras ond roedd pawb wedi mwynhau y profiad a'r awyrgylch. Codwyd swm sylweddol at yr Eisteddfod. Jean Davies a enillodd y gystadleuaeth 'Y Wisg Orau i ferched dros 21'. (gweler y llun o'r 5 ohonynt cyn dechrau'r ras - Enid, Margaret, Jean, Margaret a Lisa)



### Casgliad Haiti

Rhoddwyd cyfle yn ddiweddar i gyfrannu at gronfa argyfwng Haiti mewn bore coffi a gynhaliwyd yn festri Capel y Garn, Bow Street. Casglwyd £1,380 a throsglwyddwyd y swm teilwng yma i gronfa Cymorth Cristnogol.

### Cydymdeimlad

Cydymdeimlir yn ddiffuant â Janice a Harry Petche a`r teulu, 20 Maes Afallen, ar farwolaeth mam Janice yn Aberystwyth yn ddiweddar.

### Cydymdeimlad

Cydymdeimlir â Gwenda a W J Edwards yn y brofedigaeth o golli Jean, gweddw Iorwerth brawd W J a fu farw ar ôl dioddef blynyddoedd o salwch Parkinson. Fe'i claddwyd ym medd Iorwerth fu farw ym 1993 fis cyn bod yn 54 oed, yn Brockenhurst yn ne Lloegr lle'r oedd y cartref.

Trist yw cofnodi marwolaeth Keith, mab y diweddar Bryn a Doreen Rowlands, gynt o Dregerddan. Roedd Keith yn 54 oed ac wedi ymgartrefu yng Nghaerdydd efo'i wraig Margaret ( Forsythe gynt), a'u merched Anna, Sally a Cathy, ers dros bymtheng mlynedd. Cydymdeimlir yn fawr gyda'i frawd Alan a'r teulu, a hefyd gyda'r cysylltiadau i gyd yn Bow Street.

Cofnodir hefyd farwolaeth John Smith yn Haydock, San Helen, gŵr Beryl (Evans), gynt o Benrhyn-coch. Mae Beryl yn gyfnither i'r chwiorydd Dorothy Horwood a Gwen Pugh a'i brawd Ernest Rowlands. Rydym yn meddwl am y teulu yn eu colled.

### Chwiorydd y Garn

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Gymdeithas brynhawn Mercher 3ydd o Fawrth. Llywyddwyd ac arweiniwyd mewn defosiwn yn canolbwyntio ar gofio ein Nawddsant Dewi, gan Gwenda Edwards. Dymunwyd gwellhad buan i Elina Davies, Meinir Lowry, Vera Lloyd a Gaenor Hall. Cawsom egwyl ddiddorol pan fu'r gŵr gwadd, John Hefin yn traethu am 'Sgrîn y Meddwl'. Bu'n sôn am ei deulu — ei dad-cu Ellis Evans wedi'i eni ym Mhatagonia ym 1865 wedi i'w rieni ymfudo yno.. Treuliodd John a Geraint ei frawd eu plentyndod yn Nhŷ Ysgol Llangynfelyn yn Nhaliesin pan oedd Huw y tad yn brifathro yno. Cawsom ddarlun byw o gyfnod John yn yr ysgol yn enwedig ar y teithiau bws a drefnodd ei dad i ymweld â llecynnau hanesyddol yng Nghymru. Llafuriodd am flynyddoedd ym myd y ddrama, ffilm a theledu, bu'n cyfarwyddo 'Dechrau Canu, Dechrau Canmol', a sawl rhaglen ddogfen gofiadwy. Soniodd am y ffilmiau 'Bus to Bosworth', er cof am ei dad; 'Lloyd George'; 'Penyberth'; 'Grand Slam', a hanes Kyffin Williams yn 'Reflections in a Gondola'. Roedd John yn un o'r criw gychwynnodd 'Pobol y Cwm', ac ar hyn o bryd mae'n gweithio ar y gyfres 'Tai Cymru'. Mwynhawyd y lluniaeth a baratowyd gan chwiorydd 'gwaelod' y pentref.



Trystan Llŷr Griffiths o Glunderwen - a raddiodd yng Ngholeg y Drindod, Caerfyrddin mewn Theatr, Cerdd a'r Cyfryngau – fydd yr unawdydd yng Ngyngerdd Sul y Blodau yng Nghapel y Garn. Mae tocynnau ar werth gan y blaenoriaid. Trystan enillodd Wobr Goffa Osborne Roberts yn Eisteddfod Genedlaethol 2009 yn y Bala.

### Diwrnod Gweddi Chwiorydd y Byd

Paratowyd y gwasanaeth eleni ar yr adnod sy'n cloi Llyfr y Salmau, 'Bydded i bopeth byw foliannu'r Arglwydd', gan wragedd eglwysi Cameroun. Cynhaliwyd y gwasanaeth undebol yn y Garn brynhawn Gwener 5 Mawrth, gyda chwiorydd y Garn, Noddfa ac Eglwys Llanfihangel Genau'r-glyn yn ymuno mewn gweddi a myfyrdod gyda chwiorydd eglwysi ar hyd a lled y byd. Cymerwyd rhan gan chwiorydd y tair eglwys ac anerchwyd gan y Parchedig Judith Morris. Gwnaed casgliad tuag at hyrwyddo llenyddiaeth Gristnogol a phrosiectau addysgol yn y Cameroun.

### Diolch

Dymuna Harry, Janice a'r teulu, 20 Maesafallen ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a estynnwyd iddynt yn eu profedigaeth o golli mam Janice yn ddiweddar. Diolch hefyd am y cyfraniadau a dderbyniwyd tuag at Apel Nyrs y Galon Ceredigion a Chronfa Offer y Galon Ysbyty Bron-glais.

### Ŵyr arall

Llongyfarchiadau i Bryn a Meinir Roberts, Brynmeillion. Ganwyd mab — Iestyn- i Iwan a Nerys ym Mhenrhyn-coch ar 14 Mawrth.

### Cyngor Cymdeithas Tirymynach

Gwelir adroddiad ar t.19

## *Cyngerdd Sul y Blodau*

**Nos Sul 28 Mawrth**

Yng Nghapel y Garn
am 7.30
Artistiaid: Côr Cantre'r Gwaelod, arweinydd Eleri Roberts, a Trystan Llŷr Griffiths, Enillydd Gwobr Goffa Osborne Roberts yn Eisteddfod Genedlaethol Meirion a'r Cyffiniau, 2009
Llywydd: Dr Dafydd Huws, Caerffili
**Tocynnau**: £5; £1 i blant


CLWB CŴL
Penrhyn-coch
Ar Agor Llun - Gwener
3.30 - 5.30
£5 y sesiwn . £4 ail blentyn
Bwyd a Diod Iachus yn Gynwysedig
Gofal Plant Cofrestredig
I fwcio cysylltwch â
Nicola Meredith 07972 315392
Neu cipiwch i mewn i'r clwb
ar ôl Ysgol
Celf a Chreft, Gemau tu mewn ag allan, Wii a Playstation, Pwll Pelau a mwy!


# GOGINAN

### Merch Fach

Llongyfarchiadau i Lewis a Carly, Y Druid, ar enedigaeth eu merch fach, Ella May ar Chwefror 28.

### Gwellhad Buan

Danfonwn ein dymuniadau gorau i Jim Kittle, Haulfryn, Cwmbrwyno, sydd ar hyn o bryd yn ysbyty Treforus ar ôl torri ei goes.

### Pen blwydd arbennig

Ar Chwefror 25 fe ddathlodd Huw Davies, Glwysle, ei ben blwydd yn un ar hugain oed. Pob lwc i'r dyfodol.

### Eglwys Goginan

Llun a dynnwyd yn ngwasanaeth olaf Eglwys Goginan ar 14 Mehefin 1998. Rhes gefn: Keith Jones, Y Parchg Ronald Williams, Yr Archddiacon Hywel Jones, Carola Mercer, Richard Brinkley. Rhes flaen: Liz Lawton, Dennis Benjamin, Iris Richards, Jean Tomkinson a Meryl Tomkinson.



Llun: Hugh Jones



Nigel Callaghan o Wiki Media


Blodau i bob achlysur
Blodau'r Bedol
Priodasau . Pen blwydd . Genedigaeth . Angladdau . Blodau i Eglwysi a Chapeli neu unrhyw achlysur
Donald Morgan
Hen Efail, Llanrhystud SY23 5AB
Ffôn 01974 202233
Danfon am ddim o fewn dalgylch y Tincer

CIGYDD BOW STREET
Eich cigydd lleol
Pen-y-garn
Ffôn 828 447
Llun: 9-4.30
Maw-Sad 8.00-5.30
Gwerthir ein cynnyrch mewn rhai siopau lleol

TACSI EDDIE
7 DIWRNOD YR WYTHNOS
Ffôn 828 642
E D Evans, Gwawrfryn, Penrhyn-coch

pennau craft and coffee shop
Bow Street, ger Aberystwyth, Dyfed
Ffôn (01970) 820050
Coffi Boreuol
Byrbrydau Poeth neu Oer
Cinio
Te Prynhawn
Crefftau ac Anrhegion
Ar agor saith niwrnod yr wythnos Mehefin, Gorffennaf, Awst a Medi (fel arall, ar gau ar ddydd Llun)
siop grefft a choffi pennau

LLETY PARC
Caffi a thrwydded
Bwyd amrywiol o sgon i stêc
Coffi bore – te prynhawn
Ystafelloedd gwely moethus
Lolfa ac ystafell gynhadledd
Ar agor yn ddyddiol o 7 y bore tan 10 y nos
Trwydded i gynnal priodas
Parc-y-llyn Aberystwyth
01970 636333

# PENRHYN-COCH

## Suliau Ebrill

**Horeb**
**4** 2.30 Oedfa gymun Sul y Pasg Bethel yn cydaddoli Gweinidog
**11** 10.30 Oedfa deuluol Gweinidog
**18** 2.30 Oedfa bregethu Y Parchg Peter M. Thomas
**25** 10.30 Oedfa bregethu Gweinidog

**Salem**
**2** Gwener y Groglith — gwasanaeth ym Methel, Tal-y-bont am 10
**4** 10 a 2 Sul y Pasg Y Parchedig John Watkin ym Methel, Tal-y-bont
**11** 5 Y Parchedig Richard Lewis Cymundeb
**25** 2 Y Parchedig Roger Thomas

## Cinio Cymunedol Penrhyn-coch

Bydd y Clwb yn cyfarfod yn Neuadd yr Eglwys dyddiau Mercher 14 a 28 Ebrill. Cysylltwch â Egryn Evans 828 987 am fwy o fanylion neu i fwcio eich cinio.

## Cydymdeimlad

Estynnwn ein cydymdeimlad â'r Parchg Carys Awen a David Jones, Mark a Simon, Llanelli (gynt o Faesyfelin) ar farwolaeth mam Carys ganol Chwefror. Cynhaliwyd yr angladd ar Chwefror 24 dan ofal y Parchg Eifion Roberts (gynt o Lanelli ond sydd yn byw yn y Penrhyn nawr)

Dychwelodd Simon i Vancouver ar ôl y brofedigaeth lle mae yn gweithio gyda Gemau Olympaidd y gaeaf

## Wyres newydd

Llongyfarchiadau i Dici Wyn a Gwen, Ger-y-llan, ar ddod yn Daid a Nain eto - ganed Anna ar 16 Chwefror i Sean a Sian ym Mont-goch.

## Symud ardal

Dymuniadau gorau i Dafydd a Val Thomas, Bysaleg, a fydd yn symud i Nebo, ger Caernarfon yn fuan.

Hefyd i Dwynwen a Barry Rowlands, Noa, Magi a Nel sydd wedi symud o Glan Seilo i Morfa Mawr, Aberystwyth.

## Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Sue a Mervyn Hughes a'r teulu, Ger-y-llan, ar farwolaeth modryb Sue ym Mhorthmadog ddechrau'r mis.

## Diolch

Hoffai Carys, David, Mark a Simon. Llanelli, ddiolch i gyfeillion yn yr ardal am y cardiau a'r cydymdeimlo fu yn dilyn mawrolaeth mam Carys yn ddiweddar.

## PATRASA

O bryd i'w gilydd mae criw bach difyr yn cwrdd yn y parc chwarae i glirio ac i gymenu ac yn gwneud gwaith gwirfoddol gwych.Yr ydym hefyd yn cwrdd i drefnu digwyddiadau i godi arian. Os hoffech ymuno â ni edrychwch am hysbysebion am amserau cwrdd o gwmpas y pentref neu cysylltwch â Gwenan Price ar 828486.

## Rhedeg Marathon

Bydd Geraint Edwards o Ben-bont Rhydybeddau yn rhedeg ym Marathon Llundain ar 25ain o Ebrill i godi arian i Sefydliad Brenhinol y Galon er cof am Martin Morgan, a fu farw'n sydyn ym Medi 2009.

Fe gyfarfu Geraint a Martin gyntaf pan yn chwarae i Ail Dim Rygbi Aberystwyth yn niwedd yr 1980au ac mae digon o atgofion melys o orchestion Martin ar y cae rygbi ganddo, nad oedd wastad yn ysbryd y gêm! Ymhen ychydig flynyddoedd daeth Martin yn fos ar Geraint yn Adran Gyllid Cyngor Dosbarth Ceredigion ac roedd yn amlwg ei fod yn gyffyrddus fel rheolwr - yn disgwyl gwaith caled ac ymroddiad ond wastad yn deg a chefnogol. Rhinweddau nad ydynt yn bresennol ym mhob rheolwr.

'Roedd yn gymeriad ysbrydoledig nad oedd yn gallu eich gadael heb ddweud jôc. 'Roedd rhai o'r rhain yn dda iawn ond yn aml nid oeddynt cystal! Roedd yn berson oedd yn mwynhau bywyd, yn gweithio'n galed ac yn ymroddedig i'w deulu. Byddai'n anodd cael hyd i well rol model ac mae Geraint yn cyfrif ei hun yn lwcus i fod wedi cael cyfeillgarwch, arweinyddiaeth a chefnogaeth Martin dros gymaint o flynyddoedd.

Roedd yn ofid calon gan Martin weld yr effaith a gafodd marwolaeth Martin ar ei deulu annwyl ond bu'r cryfder a ddangoswyd ganddynt a'r cymorth a'r gefnogaeth a gawsant gan gyfeillion a'r gymuned leol yn ysbrydoliaeth. Pan soniodd wrth Esther - gweddw Martin - am ei fwriad i redeg y Marathon er cof am Martin fe awgrymodd ei fod yn codi arian i Sefydliad Brenhinol y Galon ar lefel Prydain ac Apêl Nyrsys Calon Ceredigion yn lleol. Os oes unrhyw un am gyfrannu i'r rhain gallent wneud mewn un o ddwy ffordd ar www.justgiving.com/geraintedwardsneu neu os oes rhywun am gyfrannu i'r apêl leol gallant wneud hynny trwy lenwi y ffurflenni nawdd sydd yn Garej Tŷ Mawr, Penrhyn-coch.

Dywedodd Geraint: "Bydd rhedeg yn Llundain yn deyrnged haeddiannol i Martin gan iddo fy nghynorthwyo i hyfforddi ar gyfer fy marathon gyntaf ym 1997 ac mae'n arwydd bychan o werthfawrogiad am gael adnabod gŵr mor arbennig."



Martin Morgan a Geraint Edwards

## Rhaghysbysiad

Cynhelir cyfarfod diolchgarwch Horeb eleni yn Neuadd y Penrhyn nos Fercher Hydref 6ed yng nghwmni'r Parchedig Tecwyn Ifan.



Geidiau Penrhyn-coch a enillodd y marciau mwyaf o ran cyfartaledd yng ngala nofio geidiau Ceredigion.



**Cylch Meithrin Trefeurig - Diwrnod Gŵyl Ddewi.**
Cawsom ddiwrnod wrth ein bodd yn dathlu Gŵyl ein nawddsant, yn canu a mwynhau pob math o ddanteithion. Dyma lun ohonom yn ein gwisg Gymreig.



**Diwrnod y Llyfr** - Ar ddydd Iau, Mawrth 4ydd buom yn darllen a mwynhau rhannu ein hoff lyfrau.



Dosbarth merched Ysgol Sul Eglwys Sant Ioan, Penrhyn-coch yn cymryd rhan yn chwaraeon yr Eglwys ym 1940.
Chwith: W.P.Jones, Dilys Binks (nee Morgan), Mrs J. Williams ( yn yr het), ????, Mrs W.P. Jones, Thelma Knox (efaciwi), Jean Knox (efaciwi), Edna Chaffee (nee Evans), Iris Hargreves (efaciwi), Mary Jones (nee Hughes), Agnes Morgan, Hannah Balfour (nee Evans) sydd yn sefyll â'i wyneb ynghudd o flaen John Dilwyn Evans.

## Gwellhad buan

Gwellhad buan i Betty Morgan, Ger-y-llan sydd yn anffodus wedi gorfod mynd yn ôl i'r ysbyty unwaith eto.

Da yw deall fod Heddwyn Morgan, Brynhyfryd yn gwella ar ôl bod yn fregus ei iechyd ers misoedd lawer bellach, wedi bod i mewn ac allan o ysbytai ar ôl triniaeth galed. Dal i wella Heddwyn.

## Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â theulu y diweddar Kathleen Jarvis, 21 Ger y Llan ar eu colled yn ddiweddar.

Hefyd â Beryl Smith (Evans) gynt o'r Penrhyn a'r teulu a chysylltiadau cyfagos ar golli ei gŵr Kenneth John Smith. Bu'r gwasanaeth angladdol yn Amlosgfa St Helens ar y 5ed o Chwefror 2010.

## Eisteddfod y Penrhyn

Cofiwch am ein Heisteddfod ar y 23/24 o Ebrill 2010. Dewch yn llu i gystadlu, mae yna ddigon o dalent leol ar gael. Neu dewch i fwynhau ac ymuno â'r gynulleidfa. Yr ydym yn cael gwledd wrth wrando ar y cystadleuwyr sydd o bob oed. Cefnogwch eich Eisteddfod leol!

## Merched y Wawr

Nos Iau, Chwefror 11eg fe groesawodd ein Llywydd, Mrs Ceri Williams bawb i'r cyfarfod. Trafodwyd yr holl ohebiaeth oedd wedi dod i law, ac am ein bod wedi methu cwrdd ym mis Ionawr oherwydd y tywydd garw roedd yna dipyn mwy o bethau i'w trafod. Ar ôl hyn fe groesawodd Ceri ein gwragedd gwadd sef Heledd McNulty ac Eleri Hughes a'i merch Betsan. Noson o goginio oedd hi a chawsom sawl math o fwydydd yn cael eu coginio ar y pryd a gyda Betsan yn dod a blas bob un o'r bwydydd i ni fel cynulleidfa wrth fod y merched yn dweud beth oedd pob ryset yn ei gynnwys. Erbyn diwedd y noson roedd pawb yn llawn ac wedi mwynhau pob rhan o'r bwydydd, ac roedd popeth mor flasus. Diolchodd Janice Morris i'r tair am eu gwaith caled yn ystod y noson. Noson wych, cafwyd cwpanaid a thynnu'r raffl fisol cyn mynd tua thre.

## Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Nerys ac Iwan, 4 Garn Wen, ar enedigaeth mab — Iestyn — ddydd Sul 14 Mawrth - ŵyr arall i Bryn a Meinir Roberts, Brynmeillion, Bow Street.

## Deon Gwlad

Llongyfarchiadau i'r Parchg John Livingstone sydd wedi cael gwahoddiad i fod yn Ddeon Gwlad yn Neoniaeth Llanbarn Fawr.

## Noson Lloyd

Er mai siomedig iawn oedd y gynulleidfa yn Neuadd y Penrhyn ar nos Wener 5ed o Fawrth fe gafwyd noson wych yng nghwmni Lloyd Edwards wrth iddo yn ei ffordd unigryw a'i hiwmor ddangos i ni sut i wneud sytni, lemon curd a chordial oren. Roedd yn gwneud y dasg i edrych yn hawdd ond yr oedd yn amlwg fod yna llawer o waith wedi mynd i baratoi'r noson. Ar adegau fe wnâi i bawb chwerthin a chafwyd noson hwyliog dros ben yn ei gwmni, efe a'i deulu a ffrindiau, pawb mor gefnogol yn gwneud ei rhan i helpu Lloyd. Ac i wneud y noson hyd yn oed yn fwy diddorol, cafwyd Mark Williams ein Haelod Seneddol efo'i ffedog arbennig a'r llythyrau "Lloyd's Jams" wedi'i phrintio arni, yn mynd ymlaen i helpu Lloyd i wneud yn siŵr fod y sytni a'r lemon curd ddim yn llosgi ar y gwres wrth iddo'i droi a'i droi i ofalu ei fod yn troi allan yn iawn. Ac fe weithiodd popeth allan yn fendigedig. Cafodd pawb flas ar y cordial oren ac roedd yn flasus dros ben. Roedd pawb wedi cael glasied o win wrth ddod fewn i'r neuadd a hynny gan Mr a Mrs Richards, Aberaeron. Gwin arbennig Mrs Richards sydd fel Lloyd yn adnabyddus yn ennill mewn sioeau dros y wlad a thu draw. Wrth iddynt eu dau gystadlu ymhob sioe sydd ar gael.

Roedd Lloyd wedi trefnu'r noson hon i godi arian at y Neuadd ac er mai prin oedd y bobl oedd yno gwnaed swm sylweddol iawn. Roedd yna raffl a stondin gacennau a stondin gwerth marmaled Lloyd. Ar ôl i Dai Rees, Cadeirydd Pwyllgor y Neuadd, ddiolch i bawb gwnaeth Mark Williams ddweud gair, ac fe ddiolchwyd ef hefyd i bawb ac yn arbennig i Lloyd am yr ymdrech roedd wedi rhoi mewn i gynnal y noson arbennig hon. Fe allwn fod yn falch iawn o gael pobl fel Lloyd mor barod a llwyddiannus yn ein hardal. Diolch iddo am y gwaith mae'n wneud. Do! Cafwyd noson arbennig. Trueni na fyddai rhagor ohonoch wedi troi allan achos roedd y noson hon at ddant pawb..



ANIFEILIAID TEW
eu hangen i'w lladd mewn lladd-dy lleol
Cysylltwch â Tegwyn Lewis
Ffôn (01970) 880627

M & D PLUMBERS
Gwaith plymer & gwresogi
Prisiau Cymharol;
Gostyngiad i Bensiynwyr;
Yswiriant llawn;
Cysylltwch â ni yn gyntaf ar
01974 282624
07773978352

Gwasanaeth Cynnal M.H.
Gwasanaeth Torri Porfa a Garddio, Peintio, Teilo, D.I.Y. a manion waith eraill o amgylch y tŷ
Disgownt i bensiynwyr
Ffoniwch ni yn gyntaf ar 01970 881090 / 07792457816

Carl Evans a'i Fab
Bryncadno
Penrhiwnewydd
Penrhyn-coch
Gwaith saer
Gwaith adeiladu
Gwaith to
820 961 / 07967 527099

RHODRI JONES
Brici a chontractiwr adeiladu
07815 121 238
Gwaith cerrig
Adeiladu o'r newydd
Estyniadau Patios
Waliau gardd
Llandre Bow Street

CYSYLLTWCH Â NI
ytincer@googlemail.com

## COLOFNYDD Y MIS

## Gwenno Dafydd

Fe ddyliwn i fod yn priodi fis Mehefin eleni. Dwi ddim yn dweud 'dyliwn' oherwydd traed oer neu newid meddwl. Dwi'n dweud dyliwn oherwydd mae'n bosib iawn na chaiff fy nghariad fynediad i'r wlad, heb sôn am ddod i'r capel!

Dwi'n priodi dyn o Tonga, sef gwlad fechan o 170 o ynysoedd yn ne'r Môr Tawel, rhwng Seland Newydd a Ffiji. Fe gwrddon ni flwyddyn a hanner yn ôl tra oeddwn i'n teithio yn y wlad. Ac er iddo fe fy ngweld i'n dioddef yn Tonga gyda'r mosgitos, gwenwyn bwyd, ruptured ear drum, ac un llygad ddiog wedi chwyddo, fe benderfynodd e ofyn i fi ei briodi! Dyn dewr!

Mae Sa'ipolu (y boi dan sylw) wedi bod draw i Gymru, ac aros gyda fi a fy nheulu yn Bow Street ddwywaith bellach, ac ry'n ni wedi penderfynu ymgartrefu yng Nghymru wedi'r briodas — dyw traethau gwynion Tonga ddim patsh ar y Borth, yn amlwg! Ond mae 'na sbôcsen anferthol yn olwyn y briodas ar hyn o bryd, gan i'r Llysgenhadaeth Brydeinig yn Ffiji (does dim llysgenhadaeth yn Tonga gan fod y wlad mor fach) wrthod ei gais am fisa i briodi fis diwethaf. Dwi nawr, ar ôl pythefnos o ruthro gwyllt, wedi rhoi'r apêl at ei gilydd. Ymddengys nad oes unrhyw un yn gwybod pa mor hir fydd y broses o apelio'n ei gymryd, ond gallai fod yn flwyddyn...! Wnes i erioed feddwl y byddai priodi mor gymhleth â hyn. Efallai dylen i ymfudo i Tonga — dwi'n siwr fod y rheolau'n fwy llac fynna, a gallen i gael gardd llawn moch bach a choed bananas a mangos! Ffab!

**Mae Gwenno Dafydd yn gweithio yng Nghaerdydd.**



C.J.Belsey Cyf
Chris Belsey F.R.I.C.S.
Syrfewr Siartredig Adeiladau
RICS
- Arolygon Adeiladau
- Cynllunio adeiladau newydd.
- Cynllunio estyniadau i adeiladau preswyl a Masnachol.
- Ceisiadau Cynllunio a Rheolydd Adeiladau.
Ffon: 01970 820166

## MYFYRDOD Y PASG



Ar Chwefror 23ain 1945 ar ben Mynydd Suribachi ar ynys Iwo Jima yn y Môr Tawel digwyddodd rhywbeth o arwyddocâd mawr. Gosododd rhai o filwyr America eu baner ar gopa'r mynydd. Collwyd nifer fawr o filwyr mewn ymladd ffyrnig iawn yn erbyn byddin Japan a oedd wedi bod yn paratoi amddiffynfeydd cryf ers tro. Yn wir hyd yn oed ar ôl gosod y faner roedd y gwaith o ymlid y gweddill ohonynt ar yr ynys yn dipyn o dasg. Ond roedd gweld y faner yn chwifio o'r copa yn arwydd clir bod buddugoliaeth yn sicr. Er colli cymaint o bobl ystyriodd yr Americanwyr fod y gost yn werth ei thalu am fod yr ynys o bwysigrwydd strategol enfawr oherwydd ei bod yn dod a phrif ddinasoedd Japan o fewn cyrraedd 'bombers' America. Mae'r llun o'r digwyddiad yn un o ddelweddau enwocaf o'r Ail Ryfel Byd.

Rhyw ddwy fil o flynyddoedd yn ôl yr oedd yna ddigwyddiad hyd yn oed yn fwy arwyddocaol. Gosododd Duw ei groes ar ben mynydd Golgotha tu allan i Jerwsalem. Roedd hyn yn dangos yn glir fod Duw wedi trefnu ffordd i achub pechaduriaid. Costiodd yn fawr iawn iddo Ef. Bu rhaid iddo gosbi ei fab ei hun, Iesu Grist, ar y groes am ein pechodau ni. Er bod y rhai sy'n ymddiried yn yr Iesu yn dal i orfod brwydro yn erbyn eu pechodau mae'r groes ar y bryn yn eu hatgoffa fod iddynt faddeuant llawn. Roedd e'n gost enfawr i'r Tad gosbi ei Fab ei hun yn ein lle, ond roedd ei bwysigrwydd strategol yn enfawr. Oherwydd y groes fe ddaeth holl ddinasoedd y byd a hyd yn oed ei bentrefi o fewn cyrraedd neges ffrwydrol efengyl Iesu Grist. Yn wir fe ddaeth y groes y ddelwedd fwyaf adnabyddus hanes i gyd.

Ydych chi yn deall perthnasedd y groes ichwi heddiw a sut y mae'n dal i gynnig maddeuant ac iachawdwriaeth i ni yn awr? Y Pasg yma ystyriwch arwyddocâd y groes a osododd Duw ar y bryn.

**Derrick Adams**

Steam Pie yn cyflwno
ALLAN YN Y FAN
a Delyth Jenkins





TAITH Y FILLTIR SGWÂR GWANWYN 2010

MAWRTH

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 12eg | Y DRENEWDD | THEATR HAFREN | 01686 625007 | theatrhafren.com |
| 13eg | YSTRADGYNLAIS | Y NEUADD LES | 01639 843163 | thewelfare.co.uk |
| 27ain | LLANFAIR YM MUALLT | WYESIDE | 01982 552555 | wyeside.co.uk |
| 28ain | ABERTAWE | TALIESIN | 01792 602060 | taliesinartscentre.co.uk |

EBRILL

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 8fed | CAERDYDD | Y PORTH | 02920 483344 | thegate.org.uk |
| 10fed | ABERYSTWYTH | CANOLFAN Y CELFYDDYDAU | 01970 623232 | aberystwythartscentre.co.uk * |
| 14eg | WORCESTER | HUNTINGDON HALL | 01905 611427 | worcesterlive.co.uk |
| 15eg | GLYN EBWY | THEATR BEAUFORT | 01495 355800 | blaenaugwentvenues.com |
| 16eg | HARLECH | THEATR HARLECH | 01766 780667 | theatrharlech.com |
| 17eg | CAERNARFON | GALERI | 01286 685222 | galericaernarfon.com |

* gyda Robin Huw Bowen yn lle Delyth Jenkins

Yr Albwms diweddar yw "TROSNANT" gan Allan Yn Y Fan ac "AROS" gan Delyth Jenkins
Recordiau Steam Pie / dosbarthwyd gan Proper Distribution.

www.ayyf.co.uk www.delyth-jenkins.co.uk

Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales
Supported by The National Lottery through the Arts Council of Wales
Cefnogwyd gan Y Loteri Genedlaethol trwy Gyngor Celfyddydau Cymru
Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru Sponsored by Welsh Assembly Government

# COLOFN MRS JONES

Nid y fi yw'r person i ysgrifennu y golofn hon y mis hwn mewn difrif ac ar gais y golygydd yr ymgymeraf â gwneud. Chi welwch pam fy mod yn cychwyn f'erthygl fel hyn pan ddywedaf mai cais y golygydd oedd i mi ysgrifennu teyrnged i Meirion.

Brodor o Benrhyn-coch oedd Meirion i'r carn ac er iddo dreulio blynyddoedd meithion yn Southampton, yma yr oedd ei wreiddiau ac ymfalchiai ei fod yn aelod o un o hen deuluoedd y Garth. Cafodd blentyndod digon cythryblus, collodd ei fam yn gynnar iawn a bu sawl tro anhapus ar ei fyd cyn i'w daid a'i nain ei fabwysiadu ef a Gloria, ei chwaer. Gadawodd yr ysgol a mynd i weithio ar fferm Frondeg cyn penderfynu nad oedd llawer o ddyfodol iddo yng Nghymru wledig y pumdegau ac ymuno â'r fyddin. Ni welodd ymladd, cofiwch, gyda ei gefndir gwledig darganfu ei hun ar dîm neidio ceffylau y fyddin ac yn hyfforddi cŵn, bu wedyn yn batman i Major Coombe Tennant, mab Winifred Coombe Tennant, y ddynes a adwaenwn ni'r Cymry fel Mam o Nedd. Gwraig gadarn ei Chymreictod a meistres y gwisgoedd yn yr Orsedd am flynyddoedd. A, chredwch neu beidio, bu'n gwarchod yn Buckingham Palace gan gynnwys gwarchod ystafell wely y Frenhines ei hun. Ac yn y fyddin y perffeithiodd ei sgiliau bocsio a bu'n bencampwr bocsio'r fyddin am flynyddoedd.

Rhywsut neu'i gilydd, fe'i canfu ei hun yn Southampton ac yno y priododd Rachel a magu tri o blant. James, a fu farw yn ifanc, Amanda ac Andrew. Ac yn eu tro daeth wyth o wyrion ac ymhyfrydodd yntau ynddynt ac mewn dysgu bocsio iddynt, wrth reswm - a gwelodd ddau ohonynt yn dod i'r brig ar lefel uchel iawn yn y byd bocsio yn Ne Lloegr.

Ond pan fu Rachel farw wedi gwaeledd hir yn 1996, fe welodd Meirion ei hun yn troi yn wag. Yr oedd wedi bod yn gofalu am ei wraig am flynyddoedd, yr oedd ei blant wedi setlo ac, er eu bod yn cadw cysylltiad clos ag ef, yr oedd ganddynt eu bywydau eu hunain. A dechreuodd Meirion feddwl am ddod yn ol i Benrhyn-coch i fyw. A throdd y syniad yn ffaith pan gyfarfu â mi. Daethom i adnabod ein gilydd trwy briodas Aled a Glenwen a phriodi ein hunain ym mis Ionawr 2000, priodas gyntaf y mileniwm ym Mhenrhyn ac, yn ôl a glywais, trydedd priodas


Meirion a "Mrs Jones"

y mileniwm yng Ngheredigion. A chan fod gennyf i swydd yn y Llyfrgell Genedlaethol fel llyfrgellydd mapiau a chan nad yw llyfrgellwyr o'r fath yn ei chael hi'n hawdd newid swydd, a chan fy mod ar y pryd yn hyfforddi i fod yn ddarllenydd lleyg, teimlai Meirion na allai fy nhynnu o Gymru yn enwedig ag yntau yn meddwl dychwelyd beth bynnag.

A dychwelyd a wnaeth gan gau'r cylch fel petai erioed heb agor, dychwelyd i fod yn glochydd yr eglwys a hyd yn oed dychwelyd i weithio ym Mrondeg, peth a roddodd hapusrwydd a bodlonrwydd mawr iddo a chyfeillgarwch Glyn ac Eileen yn drysor i'r ddau ohonom.

Beth oedd nodweddion ei gymeriad? Gonestrwydd unplyg oedd y nodwedd amlycaf, efallai, y gwir a dim ond y gwir a ddywedai Meirion ac os oedd hynny yn galed i'w dderbyn ar dro, yr oedd un cysur, dywedai yn union yr un peth yn eich cefn ag yn eich wyneb, yr oedd yn hollol ddiragrith. Ac yn dda ei air, os addewai wneud rhywbeth, roedd y peth hwnnw wedi ei wneud.Ymarferoldeb oedd un arall o'i nodweddion, yn ogystal a chymwynasgarwch a theyrngarwch diwyro, gwn nad y fi oedd yr unig un i brofi'r teyrngarwch hwnnw a'r haelioni a ddeuai yn ei sgîl, bu'n hael ei roddion i'r eglwys, yr eisteddfod, y sioe a sawl achos da arall.

Yr oedd ganddo ddiddordeb mewn natur ac anifeiliaid, hoffai arddio ond, yn unol â'i ymfarferoldeb, efallai, garddio i gynhaefu a wnai Meirion, er fod ganddo ddiddordeb mewn sioeau, nid oedd ganddo bwt o ddiddordeb mewn arddangos cynnyrch ei hun. Ac agwedd ffarmwr oedd ganddo at anifeiliaid cig, pethau i'w bwyta oeddynt ac nid oedd ganddo ddim amynedd â llysieuwyr. Ond nid oedd dim yn ymarferol yn ei hoffter o Buster, ein ci, anifail anwes oedd hwnnw, 'babi dad' er y byddai 'dad' yn gwaredu o weld y peth mewn print. Ond fe fyddai'n gwaredu wrth weld yr holl erthygl hon, beth bynnag, byddai'n ofni agor y Tincer rhag ofn i mi fod wedi dweud rhywbeth amdano ef ei hun!

Ac yr oedd ganddo ei wendidau, gallai fod yn ddigon byr ei amynedd ar dro ac ymddiheuro wedyn, gallai dynnu coes ychydig yn rhy egr a methu deall paham y dylai ymddiheuro! Byrbwylltra oedd un arall o'i wendidau. O benderfynu gwneud rhywbeth, fe wnâi Meirion ef fel huddygl i botes. Ar dro, gallai hyn fod yn bleser, nid oedd yn ddim iddo godi yn y bore a mynd am 'jaunt' chwedl yntau ond gallai fod yn niwsans llwyr, hefyd, fel y bore y penderfynodd dynnu rheilsen drydan llieiniau'r ystafell ymolchi a hynny heb ymgynghori dim â mi a fuasai wedi dymuno ei chadw. A thra byddaf byw, mi gofiaf amdano yn cymryd cyllell i glirio piben yr hwfyr a'r hwfyr yn dal ynghyn yn ei blwg! Ni symudais erioed mor sydyn.

Er nad oedd ei iechyd wedi bod yn dda ers tro, bu farw yn fyrbwyll o hefyd, ac y mae'n anodd credu fod person mor fyw a mor llawn bywyd bellach wedi ei gladdu. A hoffwn orffen yr erthygl hon trwy ddiolch o galon i bawb am eu gofal drosof fi a'r teulu yn ein profedigaeth. Diolch am y cardiau a'r galwadau ffôn a'r ymweliadau, fe'u gwerthfawrogwyd i gyd.

**ÔL-NODYN**

Ni fu fy nghlyw i erioed yn arbennig o dda ond, yn ddiweddar, yr wyf wedi ei golli bron i gyd. Wyneb yn wyneb, nid yw'n achosi fawr ddim problem i mi am fy mod yn fyddar mewn un glust o'r dydd y'm ganed i ac yn medru darllen gwefusau yn weddol ond mae ffôn bron a bod yn amhosibl. Mi rwyf yn well ar ffôn fach felly os ydech chi yn benderfynol o ffonio, allwch chi plis ddefnyddio 07812374045 (fy ffôn symudol) ond gwell fyth fyddai defnyddio ebost a'm cyfeiriad ebost yw lonabuster@aol.com

GWAITH GARDDIO
Am bob math o waith garddio ffoniwch Robert ar (01970) 820924

HEIRIO JONES HIRE
• Mini Digger
1½ ton - 3 ton iw gael
• Dumpers
• Trailers
CASGLWR SGRAP
YN EISIAU TRACTORAU A PHEIRIANNAU FFERM
Am fwy o wybodaeth ffoniwch Trefor ar 01970 820 934 neu 07967 654720

SWYDDFA'R POST
BOW STREET
NWYDDAU
MELYSION
CYLCHGRONAU
CARDIAU CYFARCH
PAPURAU DYDDIOL A'R SUL
JOHN A MARIA OWEN

oriel Tir a Môr gallery
01970 871 042
Eich Arbenigwr Celf a Fframio Lleol
Peter Fleming
High Street, Borth, SY24 5HZ
Tel: 01970 871 042

AberTechnoFix
Cymorth cyfrifiadurol lleoledig yn Aberystwyth
Cyfrifiadur HELP?
Ymweliad cartref
Ffoniwch
07536 022 067

Posh Paws
Salon cŵn
Torri cŵn i fri safonol
Goginan
Kath 01970 880988
07974677458

## O'r Cynulliad – Elin Jones AC



Ychydig wythnosau nôl, fe gafwyd cyhoeddiad bod Prifysgol Aberystwyth yn bwriadu cael gwared â 70 o swyddi yn ei Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (IBERS). Roeddwn yn siomedig iawn i glywed am y cynlluniau hyn ac rwyf wedi cwrdd gydag Is-Ganghellor y Brifysgol ynghyd â chynrychiolwyr undeb ar ran gweithwyr y Sefydliad. Fe fydd colli 70 o swyddi da yn ergyd drom i economi ardal Aberystwyth ac mae'n hanfodol fod y broses ddiswyddo yn dryloyw ac yn cymryd yr holl opsiynau eraill i ystyriaeth.


Ar ddechrau mis Chwefror, fe gynhaliwyd pleidlais ar lawr siambr y Senedd i ddechrau'r broses o gynnal refferendwm i roi pwerau deddfu cynradd i'r Lywodraeth y Cynulliad. Roeddwn yn falch iawn bod pob Aelod Cynulliad oedd yn bresennol ar y diwrnod hwnnw wedi cefnogi'r bleidlais ac fe fydd yn awr angen i Ysgrifennydd Gwladol Cymru ystyried y mater ymhellach dros yr wythnosau nesaf er mwyn symud y broses ymlaen.

Hefyd ar ddechrau mis Chwefror fe fynychais lansiad swyddogol ymgyrch etholiadol San Steffan y Blaid. Fe ddaeth tyrfa dda at ei gilydd yn Neuadd Llwyncelyn ger Aberaeron ar gyfer y lansiad, ac yn dilyn ychydig o gawl fe gafwyd adloniant o dan arweiniad Dai Jones, Llanilar. Fe roedd Angharad Mair hefyd yn bresennol er mwyn cyfweld ag ymgeisydd seneddol Plaid Cymru, Penri James. Rwy'n edrych ymlaen at gynorthwyo Penri gyda'i ymgyrch dros yr wythnosau nesaf.

Fe wnes hefyd fynychu cynhadledd yn Aberystwyth ar dwristiaeth yng Nghanolbarth Cymru yn ddiweddar. Fel rhan o'r gynhadledd, roedd yn fraint i gael fy ngwahodd i lansio taflen newydd hyrwyddo Tocyn Crwydro ar hyd yr arfordir ar reilffordd y Cambria. Mae taith trên yn aml yn brofiad dymunol yn ei hun ac rwy'n gobeithio y bydd y daflen hon yn amlygu'r atyniadau sydd ar gael i deithwyr ar eu siwrneiau ar hyd Linell Arfordir Y Cambria.

# PÊL-DROED

Malcolm Allen *Hunangofiant* Y Lolfa , 2009 272t. £9.95




Mae'n debyg mai rhyw berthynas chwerw-felys sydd gen i a hunangofiannau. Am ryw reswm, llyfrau o'r fath sy'n dueddol o fod ar waelod y pentwr 'i'w darllen' ond, yn aml, dyma'r union lyfrau sy'n rhoi'r boddhad mwyaf. Y gamp gyda chyfrolau o'r fath yw sicrhau nad oes gormod o gatharsis hunanganolog ynddynt, ac er bod elfen o hynny yma, mae'r gyfrol yn llwyddo i gyfuno hanes personol digon helbulus ar adegau â hanesion difyr am gydnabod, am deulu ac am enwau byd-enwog.

A stori chwerw-felys yw un Malcolm Allen - y bachgen bach o bentref Deiniolen, Eryri, Gwynedd (fel y cawn ein hatgoffa'n aml), y pêl-droediwr proffesiynol a'r sylwebydd cyffrous a lliwgar. Daeth hi'n amlwg fod ganddo dalent a photensial i chwarae pêl-droed ers pan oedd yn ifanc iawn, a cheir rhywfaint o ddealltwriaeth o'r aberth a'r hunanbenderfyniad sydd ei angen i lwyddo. Ac yntau prin yn un ar bymtheg oed, gwelwyd ef yn gwireddu breuddwydion cymaint o fechgyn tebyg iddo drwy gael cynnig prentisiaeth gan glwb pêl-droed Watford; tîm oedd ar ei brifiant dan berchenogaeth y canwr Elton John a'r rheolwr hynaws, dawnus, Graham Taylor. Yn ôl Iwan Roberts, ei gyd-sylwebydd ar Radio Cymru, datblygodd Malcolm Allen i fod yn 'un o'r sgorwyr mwyaf clinigol a gynhyrchodd Cymru erioed'.

Er i mi deimlo fy mod yn gwybod rhywfaint o'i hanes yn barod, roedd dysgu am fywyd pêl-droediwr proffesiynol ar y lefel uchaf un yn hynod ddifyr - o'r clebran ar y cae i'r betio'n drwm ar gêmau a'r partïon meddwol. A dydy e ddim yn ofni ei dweud hi fel mae ef yn ei gweld hi chwaith, a dydy hi ddim yn debygol fod Malcolm Allen ar restr cardiau Nadolig John Toshack na Bobby Gould.

Mae'n amlwg wrth ddarllen y gyfrol fod ei deulu yn Neiniolen a Watford yn bwysig iawn iddo, ac mae fel pe bai'n teimlo i'r byw pan fo'n ei gadael i lawr o ganlyniad i'w gamweddau niferus. Mae'r rheiny, fel arfer, yn deillio o or-yfed alcohol, yn enwedig pan gafodd anaf difrifol i'w ben-glin. Ond mynna nad yw, ac na fu erioed, yn ddibynnol ar alcohol a diddorol hefyd oedd darllen yr hanes am sut y gwnaeth sgan ar ei ymennydd ddadlennu cyfrinachau am ei ymddygiad.

Mae Cymreictod wedi dod i olygu rhywbeth llawer mwy iddo'n ddiweddar ac mae ei ddycnwch i ddysgu siarad Cymraeg graenus unwaith eto yn dangos dyfalbarhad a phenderfyniad oedd yn nodweddiadol o'i fywyd cynnar er mwyn llwyddo mewn byd hynod gystadleuol. Meddai mewn un man, 'Ac roedd yr awydd hwnnw i wella, a datblygu, a chryfhau, yn awydd dwfn, dwfn ynof, yn rhan o'm henaid.' Mae'r elfen bengaled i'w gymeriad yn cael ei hamlygu o dro i dro ond mae'n gallu chwerthin am ei ben ei hun hefyd ac mae ei gyfieithiad llythrennol o 'peach of a goal' yn ddoniol iawn!

Gall neb gymryd oddi ar berson ei hanes personol a thrwy'r gyfrol down i wybod am gyrraedd uchelfannau proffesiwn cystadleuol tu hwnt ac am ddisgyn i waelodion enbyd hefyd. Mae'r stori'n un ddiflewyn-ar-dafod, yn lliwgar, yn ddiddorol ac yn ddifyr iawn ond rwy'n teimlo bod ganddo dipyn o ffordd i fynd eto cyn ei fod e'n gallu llwyr argyhoeddi pobl ei fod wedi dysgu gwers o'r hyn sydd eisoes wedi digwydd yn ei fywyd.

**Hefin Jones**

Mark Aizlewood *Amddiffyn fy hun: hunangofiant Mark Aizlewood.* Gwasg Gomer, 2009. 104 t. £7.99




Go lew, ar y cyfan, ydi hunangofiannau pêl-droedwyr. Dyw'r ffaith fod rhywun yn medru trafod pêl yn gelfydd wrth redeg yn gyflym ddim, o reidrwydd, yn eu gwneud nhw'n bobl ddifyr. Y peth gorau am amryw gyfrolau o'r fath yw'r gair amwys yn y teitl. Yn aml, mae eu darllen mor ddifyr â gwylio creosot yn sychu ar ffens. Ond mae na eithriadau, wrth gwrs. Yn wir, does dim yn well na darllen hanesion gafaelgar sy'n codi uwchlaw'r pêl-droed, sy'n cynnig golwg ar gymeriadau arbennig a'u bywydau'n gwegian, neu'n chwalu, dan bwysau. Gellir dadlau mai cyfrol gynta'r alcoholig Jimmy Greaves, *This One's On Me*, oedd un o'r hunangofiannau dadlennol cyntaf gan bêl-droediwr. Roedd hanes Tony Adams, *Addicted*, yn ysgytwad bychan i'r sefydliad pêl-droed, ac mae atgofion diweddar cyn-reolwr Cymru, Terry Yorath, *Hard Man, Hard Knocks*, yn parhau â'r traddodiad.

Heb os, mae hunangofiant Mark Aizlewood yn perthyn i'r un dosbarth â'r hunangofiannau dadlennol. Does ganddo ddim prinder deunydd i'w rannu, ac mae'n dweud ei ddweud yn ddiflewyn-ar-dafod. Does na ddim llawer all gyfaddef, 'Mae pawb sy'n agos ata i wedi teimlo'r angen rywbryd neu'i gilydd yn ystod fy mywyd . . . i ddweud, "Rwy'n dy gasáu di".' Ond dyna'r hyn sydd gan Mark Aizlewood i'w ddweud. Mae'r llyfr, meddai, yn ymgais i geisio egluro i'w deulu, ac i'w ffrindiau, pam y bu'n ymddwyn mor wael cyhyd. A pham, ar yr union adeg pan oedd 'ganddo'r cyfan' — yn sylwebydd ar y BBC, gyda phensiwn swmpus yn dilyn gyrfa ddisglair ar y cae, a swydd ddylanwadol o fewn Cymdeithas Bêl-droed Cymru - iddo deimlo mai fo oedd y 'person mwya isel ar wyneb y ddaear'. Wedi ugain mlynedd o yfed caled roedd Mark Aizlewood 'ganiad corn' i ffwrdd o daflu ei hun oddi ar bont uchel yn Rhufain. Dyna'r trobwynt yn ei fywyd. Does dim rhaid caru'r bêl gron i ddeall yr hanes am yr hyn a ddigwyddodd cyn, ac ar ôl, cwymp Mark Aizlewood er mwyn llwyr werthfawrogi'r gyfrol hon.

**Telor Iwan**

Adolygiadau oddi ar www.gwales.com, trwy ganiatâd Cyngor Llyfrau Cymru.

# Côr Ger-y lli




Greg Roberts — arweinydd a rhai o aelodau Côr Ger-y lli yn cyflwyno siec am £700 i Richard Lewis o Gymdeithas Multiple Sclerosis Cymru a godwyd gan y Côr wrth ganu.

Dywedodd Richard Lewis — sy'n aelod o Gyngor Cymdeithas MS Cymru 'Rydym yn hynod ddiolchgar i ieuenctid Ger-y-lli am eu cyfraniad o £700. Mae Multiple Sclerosis (MS) yneffeithio tua 1 person mewn 750 yng Nghymru, sydd yn golygu fod yna yng Ngheredigion yn unig 80 i 100 o bobl gyda'r afiechyd, sydd yr afiechyd newrolegol mwyaf cyffredin i effeithio pobl ifanc. Mae'r afiechyd yn un sydd pan yn taro yn un sy'n aros ar hyd oes person gyda thua 25% o'r rhai gaiff eu heffeithio angen defnyddio cadair olwyn.

Caiff arian a gesglir yng Nghymru ei ddefnyddio yng Nghymru gan MS Cymru/Wales i'w cynorthwyo yn eu cenhadaeth i ganiatau pawb a effeithir gan MS i fyw bywyd i'w lawn botential a sicrhau y gofal a'r gefnogaeth sydd ei angen ar gleifion, hyd yn y pen draw y darganfyddir iachâd. Nod y Gymdeithas yw llorio MS.

Os effeithir chi gan MS, unai fel un sydd â'r afiechyd neu fel gofalwr neu rywun sydd â diddordeb i gynorthwyo y gangen leol o'r Gymdeithas MS gellwch gysylltu â'r Gymdeithas yn ganolog ar 0808 800 8000 neu y trefnydd lleol, Julian Eastwood, Glan Ceulan, Penrhyn-coch ar (01970) 828883.

# Ein Biosffer Ni

Ar ôl blynyddoedd o drafod, cyfarfota ac ymgynghori mae Ardal Biosffer Dyfi yn bodoli go iawn. Cymeradwywyd ein cais am statws Biosffer 'modern' gan UNESCO, lansiwyd y dynodiad gan Jane Davidson y Gweinidog dros yr Amgylchedd ar 8 Mehefin 2009, a chynhaliwyd Cyfarfod Cyffredinol cychwynnol ar 25 Tachwedd 2009 yn neuadd Plas Machynlleth.

Daeth ymhell dros gant i'r cyfarfod, canran uchel ohonynt yn siaradwyr Cymraeg. Yn eu plith roedd cynrychiolaeth dda o'r gymuned amaethyddol a'r sector addysgiadol. Roedd yn achlysur bywiog, a dweud y lleiaf, ac yn gyfle i bawb fynegi barn - yn enwedig yn sesiynau trafod (prif themâu Biosffer: iaith a diwylliant, amaethyddiaeth ac arallgyfeirio, addysg amgylcheddol, twristiaeth a datblygu cynaliadwy ac ati).

Pwrpas arall y cyfarfod oedd ethol neu gadarnhau cynrychiolwyr o fusnesau a mentrau lleol i ymuno â chynghorwyr Sir a chymuned ar Bartneriaeth y Biosffer. Ynghyd a fforymau ar rai o'r themâu uchod, y Bartneriaeth fydd y prif gyfrwng i fynegi barn am gyfeiriad a gwaith y Biosffer.

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y Bartneriaeth ar 17 Chwefror 2010, pryd y cyflwynwyd adroddiadau ar ddatblygiadau sydd eisoes ar y gweill. Er enghraifft clywyd bod grŵp o ffermwyr (lled!) ifainc yn bwriadu ymweld a Biosffer y Rhôn yn yr Almaen i weld sut mae cynnyrch lleol yn cael ei addasu a'i frandio. Crybwyllwyd nifer o syniadau blaengar ym maes twristiaeth gynaliadwy gan gynnwys ymestyn cysyniad 'Lyfi Dyfi'. Cymeradwywyd gwaith y grŵp addysg sydd ar fin cyhoeddi Pasport (dwyieithog) y Biosffer i blant ysgol. Ac ym maes diwylliant mae cyfres o ddigwyddiadau diddorol yn yr arfaeth dan y teitl 'Tirwedd Dyfi', fel y gwelir isod.

Mae sawl un wedi holi am arwyddocâd y term 'Biosffer'. Gair cyffredinol a ddefnyddiwyd ers degawdau yw biosffer i ddisgrifio haen allanol y ddaear — tir, môr ac awyr — lle mae bywyd yn ffynnu. Fe'i mabwysiadwyd yn 1970 gan UNESCO ar gyfer Ardaloedd (neu Reserves) Biosffer sydd a chynefinoedd neu nodweddion naturiol hynod, megis Cors Fochno a ddynodwyd fel yr unig Biosffer yng Nghymru mor gynnar a 1976. Yna diweddarwyd y syniad gan UNESCO ym 1996 i gynnwys ardaloedd dipyn mwy er mwyn arddangos, amlygu a datblygu, mewn modd cynaliadwy, y berthynas rhwng yr amgylchedd naturiol a'r ddynoliaeth.

Er mai Biosffer Dyfi yw'r term swyddogol, mae'r ardal dan sylw yn dipyn ehangach na Bro Ddyfi ei hun. Mae'n cynnwys y cymunedau canlynol: yng Ngwynedd - Aberdyfi, Pennal, Corris, Mawddwy; yng Ngheredigion - Ysgubor-y-Coed, Llangynfelin, Ceulanamaesmawr, Borth, Genau'r Glyn, Tirymynach, Aberystwyth; ym Mhowys - Llanbryn-mair, Glantwymyn, Cadfarch, Machynlleth.

Mae toreth o wybodaeth am ardal y Biosffer ac ar y datblygiadau uchod ar wwwbiosfferdyfi.org.uk.

TAFARN TYNLLIDIART
Ty Bwyta a Bar
Prydau neilltuol y dydd
Prydau pysgod arbennig
Cinio Dydd Sul
Bwydlen lawn hanner dydd
neu yn yr hwyr
CROESO
(mantais i archebu o flaen llaw)
CAPEL BANGOR
01970 880 248

MARK HUGHES
CEIROPODYDD A PHODIATRYDD COFRESTREDIG
Gofal ewinedd arferol
Ewinedd yn tyfu i'r byw
Cyrn a chroen caled. Verrucae
Gofal traed i rai â chlefyd siwgr
Poenau yn y traed a'r coesau
GWASANAETH YMWELD Â'R CARTREF
01970 615938

MORRIS & READ

PEIRIANWYR MODURON
GWASANAETH TRWSIO . TIWNIO M.O.T. a.y.b
Ar agor
8a.m. - 6p.m. Llun - Gwener
9a.m. - 1p.m. Sadwrn
GAREJ CWRT
PENRHYN-COCH
ABERYSTWYTH
Ffôn Aberystwyth
820 090

GWASANAETH TEIPIO
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
* PROSESYDD GEIRIAU *
* PRINTYDD LLIW *

Iona Bailey
Pen-y-bryn
Swyddffynnon
Ystrad Meurig
Ffôn 01974 831580

Eirian Reynolds, Tech. S.P.
GWASANAETHAU IECHYD A DIOGELWCH
GWASANAETHAU DIOGELWCH
AROLYGON DIOGELWCH
ASESIADAU PERYGLON
ARCHWILIADAU DAMWEINIAU
HYFFORDDIANT
GWASANAETH CYFLAWN I GADW CHI A'CH GWEITHLU YN DDIOGEL
Ffôn: 01970 820124 Symudol: 07709505741

# Tirwedd Dyfi

Sail rhaglen Tirwedd Dyfi yw'r berthynas emosiynol, ysbrydol, greadigol a llenyddol rhwng pobl a'r tirwedd, tirlun neu'r golygfeydd o'u cwmpas. Dros y flwyddyn yma trefnir nifer o ddigwyddiadau i annog trigolion y Biosffer i archwilio, datgan a dathlu'r cysylltiadau rhwng y diwylliant Cymraeg a harddwch naturiol y fro, trwy ddefnyddio Biosffer Dyfi fel ardal arddangos.

Er nad yw'r rhaglen yn gwbl gyflawn, eisoes mae'r gweithgareddau yma wedi ei cynllunio:

"Dathlu Dyfi" - Cyflwyniad Creadigol yn y Trobwll, Plas Machynlleth am 7.30 ar Nos Wener 16 Ebrill. Noson arbrofol, hwyliog fydd hon, yn ceisio dathlu naws y lle mewn cerddoriaeth, celf a llenyddiaeth, o'r traddodiadol i'r arloesol.
Ymryson y Beirdd yn ystafell Vane Tempest, Plas Machynlleth am 7.00 ar Nos Wener 14 Mai. Bydd timau o dair Sir ardal y Biosffer (Gwynedd, Ceredigion a Phowys) yn cystadlu ar bynciau'n ymwneud a'r tirlun, yn lleol ac yn gyffredinol.
Cystadleuaeth braidd yn wahanol. Gofynnir am waith creadigol sy'n cyfuno'r gweledol a'r geiriol. Gall yr elfen weledol fod ar ffurf llun mewn unrhyw gyfrwng, gan gynnwys ffotograffiaeth o olygfa, adeilad neu leoliad o fewn y Biosffer. Dylai'r geiriau (300 ar y mwyaf) ategu cynnwys y llun trwy ddehongli neu ddisgrifio'r cynnwys unai mewn rhyddiaith neu farddoniaeth, rhydd neu gaeth. Bydd y gystadleuaeth yn ymestyn am fisoedd i ganiatáu dewis o dymhorau. Gall un person neu ddau ar y cyd gystadlu, sy'n creu cyfle gwych i siaradwyr Cymraeg ddod ynghyd â dysgwyr neu rywun di Gymraeg i gyd weithio ar y ddwy ddawn mewn modd greadigol, ategol. Defnyddiwch eich dychymyg — mewn sawl ystyr!
Gwobrau eisteddfodol. Cynigir gwobrau bach ariannol i eisteddfodau lleol sy'n gosod testunau llenyddol yn bennaf, ar themâu sy'n berthnasol i'r Biosffer neu Tirwedd Dyfi. Os hoffech fanteisio ar hyn, cysylltwch ag Andy Rowland, trefnydd ecodyfi ar 01654 703965 neu andy.rowland@ecodyfi.org.uk.

Gweithredir Tirwedd Dyfi gan ecodyfi (01654 703965) ac fe'i ariannir gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru a Chronfa Arbrofol Eryri yn bennaf. Mae'r grŵp llywio, sy'n gyfrifol am gyfeiriad cyffredinol y rhaglen yn cynnwys cynrychiolwyr o Fwrdd yr Iaith Gymraeg, Bwrlwm Eryri, Cyngor Gwynedd a Menter Maldwyn. Disgwylir mai'r corff ymbarél yma fydd yn gweithredu fel prif rwydwaith ieithyddol diwylliannol Partneriaeth y Biosffer.

# CYNGOR CYMUNED TREFEURIG

Cyfarfu'r Cyngor Cymuned nos Fawrth, 19 Ionawr, yn Neuadd y Penrhyn gyda 10 o'r cynghorwyr yn bresennol ynghyd â'r Clerc a'r Cynghorydd Sir; cafwyd ymddiheuriad gan Tegwyn Lewis. Gwahoddwyd y Cynghorydd Sir Dai Suter i roi adroddiad ar y sefyllfa o ran y biniau graean. Dywedodd ef fod cyfarfod o'r cynghorwyr sir yn cael ei drefnu yn dilyn yr anawsterau a gafwyd ledled y sir adeg y rhew a'r eira trwm er mwyn ystyried a ellid darparu biniau graean ychwanegol mewn ardaloedd gwledig nad ydynt ar y llwybrau graeanu. Penderfynwyd ysgrifennu at y Cynghorydd Ray Quant, yr aelod cabinet â chyfrifoldeb am briffyrdd, i ofyn unwaith eto am finiau mewn mannau penodol, ac i nodi fod y sefyllfa'n waeth am nad oedd ochrau'r ffyrdd yn cael eu hysgubo yn ystod yr hydref.

Fe gododd Mervyn Hughes y mater o werthu diodydd alcoholaidd ar faes Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Llannerchaeron ym mis Mai. Roedd y penderfyniad i ganiatáu'r drwydded wedi'i gymryd y pnawn hwnnw, ond dymunai'r Cygh. Hughes nodi fod nifer o drigolion yr ardal yn llwyr wrthwynebu'r bwriad. Penderfynodd y Cyngor nodi ei siom fod yr Urdd wedi cymryd y cam diangen hwn.

Roedd hysbysiad wedi cyrraedd gan y Post Brenhinol yn nodi fod holl aelwydydd Pen-bont wedi cytuno i newid y cyfeiriad post o 'Cwmsymlog' i 'Pen-bont Rhydybeddau', ond nid oedd hysbysiad wedi'i anfon i'r holl drigolion eto. Daethai llythyr oddi wrth y Cyngor Sir yn dweud y byddai'r gwaith o ddiffodd y goleuadau stryd rhwng hanner nos a phump y bore yn cychwyn ym mis Ionawr. Adroddodd y Cadeirydd iddo fod mewn cyfarfod byr y pnawn hwnnw yn Aberaeron lle'r eglurwyd y trefniadau ar gyfer adolygu ffiniau wardiau'r Cyngor Sir. Roedd y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru yn trefnu'r adolygiadau hyn yn rheolaidd. Un bwriad oedd ceisio sicrhau, hyd yr oedd yn bosib, fod pob cynghorydd o fewn un awdurdod yn cynrychioli'r un nifer o etholwyr, a'r targed oedd 1,750 ar gyfer pob cynghorydd. Ar hyn o bryd y cyfartaledd ar gyfer Ceredigion oedd 1,317, felly byddai nifer y cynghorwyr yn debyg o ostwng. Cytunwyd i anfon sylwadau cychwynnol i'r Comisiwn yn dadlau dros gadw ffiniau ward Trefeurig fel yr oedd.

Trafodwyd y ceisiadau am arian gan wahanol gymdeithasau a mudiadau. Penderfynwyd cyfyngu'r rhoddion i gymdeithasau lleol ar wahân i Ambiwlans Awyr Cymru. Dyma'r symiau a benderfynwyd: Grŵp Datblygu Ysgol Trefeurig, £250; Grŵp 60+ Trefeurig, £150; Cae Chwarae Pen-bont, £250; Clwb Pêl-droed Penrhyn-coch, £400; Neuadd y Penrhyn, £750; Cae Chwarae Penrhyn (PATRASA), £250; Clwb Cŵl, £250; Brownies Penrhyn, £100; Grŵp Ymddeolwyr Penrhyn, £150; Y Tincer, £250; Cartref Tregerddan, £250; Cylch Meithrin Penrhyn, £150; Ambiwlans Awyr Cymru, £300, cyfanswm o £3,500.

Adolygwyd sefyllfa ariannol 2009/10 ac amcenid y byddai tua £3,200 yn weddill ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, gyda hyn yn cynnwys cronfa-wrth-gefn o £1,500. Penderfynwyd gosod cyllideb o £15,500 ar gyfer 2010/11, ac roedd hynny'n golygu gosod archebiant/praesept o £13,000 ar gyfer y flwyddyn. Roedd y Cylch Meithrin yn gorfod symud o Neuadd y Penrhyn ac roedd symudiadau ar droed i geisio rhentu neu brynu caban ger Ysgol y Penrhyn. Byddai hynny'n golygu cost sylweddol, felly penderfynodd y Cyngor glustnodi cyfraniad o £1,000 ar gyfer y prosiect yn ystod 2010/11.

Penderfyniadau cynllunio: 50 Dôl Helyg, estyniad — wedi'i ganiatáu.

Ceisiadau cynllunio: Banc Llety Spence, Cwmerfyn, estyniadau — dim sylwadau; tir i'r gorllewin o Gwelfor, Penrhyn, sied amaethyddol — gwrthwynebu'r cais gan na fyddai'r adeilad yn cydweddu â'r ardal o'i gwmpas ac roedd y ffordd yn gul iawn ger y fynedfa i'r safle.

Ym mis Chwefror cyfarfu'r Cyngor yn Hen Ysgol Trefeurig, nos Fawrth 23 Chwefror, gyda'r Is-Gadeirydd, Trefor Davies, yn y gadair a saith aelod arall yn bresennol ynghyd â'r Clerc. Cafwyd ymddiheuriadau gan Edwina Davies, Melvyn Evans a Richard Owen.

Ni chafwyd ymateb hyd yma gan y Cyngor Sir i gais y Cyngor am ychwaneg o finiau graean ar y ffyrdd hynny nad oedd yn cael eu graeanu gan y Cyngor Sir. Gwnaed y pwynt fod bysys ysgol yn defnyddio'r ffyrdd hyn, ac felly fod plant yr ardaloedd mwyaf gwledig yn cael cam ar adeg o dywydd gaeafol os oedd yr ysgolion yn agored a hwythau'n methu cyrraedd yr ysgol oherwydd nad oedd y Cyngor Sir yn graeanu'r ffyrdd nac yn fodlon darparu biniau graean. Penderfynwyd ysgrifennu unwaith yn rhagor at Gyngor Ceredigion, ac i anfon copi i'r Cynghorydd Sir gan ofyn iddo bwyso am ateb. Roedd cynrychiolwyr o'r Cyngor wedi bod mewn cyfarfod o reolwyr Ysgol Penrhyn-coch ac mewn cyfarfod o bwyllgor Cartref Tregerddan, ond nid oedd unrhyw fater o bwys i'w adrodd.

Roedd y Clerc wedi gwneud adolygiad manwl o'r Cynllun Asesu a Rheoli Risg, gan roi sylw i holl reolaeth ariannol y Cyngor. Penderfynwyd adolygu yswiriant y Cyngor i adlewyrchu beth fyddai'r sefyllfa ariannol debygol yn Ebrill 2010, a hefyd i adolygu y polisi yswiriant eiddo o ystyried y niwed a wnaed yn ddiweddar i'r Gofeb.

Penderfynwyd na ddylid ystyried unrhyw geisiadau pellach am arian gan gymdeithasau a mudiadau tan Ionawr 2011. Roedd cais wedi'i wneud i'r Cyngor Sir am grant tuag at dorri ochrau un o'r llwybrau cyhoeddus yn ardal Pen-bont. Roedd dau gynnig wedi dod i law ar gyfer glanhau y pedwar lle aros bws, a phenderfynwyd derbyn yr isaf o'r ddau, a gofyn i'r gwaith gael ei wneud ar fyrder.

Penderfyniadau cynllunio: Banc Llety Spence, Cwmerfyn, estyniadau — caniatawyd.
Ceisiadau cynllunio: 4 Glanffrwd, Penrhyn, estyniad — dim sylwadau; Trysor, Cefn-llwyd, newid conservatory — dim sylwadau.

Mae'r cofnodion llawn ar gael ar www.trefeurig.org .

# YSGOL CRAIG-YR-WYLFA

### Gala Nofio

Llongyfarchiadau i Jonah Williamson Evans, Megan Trubshaw ac Erin Hassan a aeth i nofio yng ngala derfynol cylch Aberystwyth - ysgolion bach a mawr y Cylch. Llwyddodd Jonah i ennill y ddwy ras - rhydd ac fe ddaeth Erin a Megan yn bedwerydd. Llongyfarchiadau mawr iddynt a diolch am eu cyfraniad.

### Chwaraeon

Fel rhan o ymgyrch chwaraeon y cylch bu Ysgol Padarn Sant atom ni, er mwyn chwarae gêm gyfeillgar ym mhêl-droed a phêl-rwyd yn ddiweddar. Er i Graig yr Wylfa golli'r ddwy gêm, fe fwynhaeodd y disgyblion y profiad yn arw ac wrth gwrs, mwynhau cymryd rhan.

### Dathlu Dydd Gŵyl Ddewi

Braf oedd gweld cynifer o'r disgyblion wedi gwisgo i fyny mewn dillad Cymreig eleni i helpu ni i ddathlu Dydd Gŵyl Ddewi. Roedd nifer o weithgareddau cyffrous wedi eu trefnu yn y dosbarthiadau - gan gynnwys Wendy yn cynorthwyo pawb i wneud pice ar y maen - a rhai ohonynt yn siâp y ddraig. Diolch yn fawr i Wendy hefyd am y cawl, pice ar y maen a bara brith blasus a oedd i'w bwyta amser cinio. Cynhaliwyd cystadleuaeth llawysgrifen ar y diwrnod, a bu'r disgyblion yn creu cardiau Gŵyl Ddewi yn ogystal â chlywed hanes ein Nawddsant.

### Eisteddfod Gylch

Llongyfarchiadau gwresog i dîm dawnsio disgo'r Ysgol a ddaeth yn ail yn Eisteddfod Ddawns Cylch Aberystwyth. Buont yn ymarfer yn ddiwyd ar gyfer yr achlysur - a'u hyfforddwraig Rachel Varnham a Lorraine Moore yn ffyddlon iawn yn eu cynorthwyo a chynllunio'r dillad. Diolch i'r ddwy am eu gwaith caled - a da iawn chi'r tîm dawnsio disgo - a daliwch ati.
Hefyd llongyfarchiadau i Erin Hassan a enillodd y trydydd safle yng nghystadleuaeth offeryn pres yng Nghylch Aberystwyth. Mae Erin yn canu'r corn Ffrengig a llwyddodd i ddod yn drydydd. Tipyn o gamp - a da iawn ti Erin.



Y tîm dawnsio disgo

### Clwb yr Urdd

Mae Clwb yr Urdd wedi cwrdd yn ystod y tymor hefyd gan gymryd rhan yng ngweithgareddau megis coginio crymbl afal, dylunio ac addurno cerrig ac yn creu ambell i eitem i gystadleuaeth celf a chrefft yr Urdd. Maent wedi bod yn brysur yn cymdeithasu hefyd.


### Camu Mlaen

Cynhaliodd y corff Llywodraethol noson yn sôn am gynlluniau'r Ysgol ar gyfer y dyfodol yn Brynodyn yn ddiweddar, yn sôn am obeithion yr Ysgol ar gyfer y dyfodol. Diolch i bob un am eu cymorth, i'r corff am y cyflwyniad a hefyd i'r rhieni a ddaeth i gefnogi.

### Casglu poteli plastig

Mae Ysgol Craig yr Wylfa yn gofyn am eich cymorth. Rydyn ni'n bwriadu adeiladu tŷ gwydr plastig - gan ddefnyddio poteli plastig. Felly os oes gennych poteli plastig 2L byddwn yn dra ddiolchgar o bob cyfraniad.

**Llawer o ddiolch**




Erin yn drydydd yng nghystadleuaeth offeryn pres Eisteddfod offerynnol cylch Aberystwyth

ytincer@googlemail.com

Gwasanaeth
CYFIEITHU
Linda Griffiths
Maesmeurig
Cwmsymlog
Aberystwyth
Ceredigion SY23 3EZ
01970 828454
linda.griffiths01@btinternet.com

DRUID INN
Goginan
Ar agor trwy'r dydd
pob dydd
Bwyd ar gael bob amser
Croeso cynnes
Ffôn 880650
Tafarn y Flwyddyn
CAMRA 2008
Cinio Sul a ddyfarnwyd y gorau ym Mhrydain

# YSGOL RHYDYPENNAU

## Eisteddfod Ysgol

Yn ddiweddar, cynhaliwyd Eisteddfod yr Ysgol, er mwyn dathlu Dydd Gŵyl Ddewi.
Ar ôl wythnosau o ymarfer a chwblhau gwaith penodol ar gyfer cystadlaethau dosbarth, daeth yr amser i feirniadu ymdrechion y plant. Roedd hi'n ofynnol i bob plentyn i lefaru neu i ganu neu i chwarae darn offerynnol. Yn ychwanegol i hyn bu'r beirniaid yn dewis y goreuon o'r cystadlaethau dosbarth. Roedd pob tasg yn y gystadleuaeth yn ymwneud â Chymru. Ac ar gyfer y brif gystadleuaeth sef ennill 'Y Gadair', bu blwyddyn 5 a 6 yn cyfansoddi cerddi ar y thema'Dewi Sant'. Roedd ansawdd y cerddi yn arbennig o dda eleni, ond, ar ganiad y corn, Guto Havard o flwyddyn 6 a gododd o ganol y gynulleidfa i gipio'r Gadair. Llongyfarchiadau mawr i Guto. Dyma'r gerdd fuddugol

### Dewi Sant

Ar ddydd ein gŵyl arbennig,
Cofio wnawn am Dewi;
dyn arbennig, Cristion cryf
A'i ffydd oedd yn yr Iesu.

Addysgwyd yn Henfynyw
Gan ei athro dall;
ond gwyrth gan ddwylo Dewi da,
iachawyd heb 'r'un gwall.

Sefydlu mynachlog yng Nglyn Rhosyn
Ond Boia'n holi Pam?
Danfon milwyr cas a brwnt,
ond Dewi heb 'r'un nam.

Cyrhaeddodd bentref Brefi
Yng nghanol tyrfa bur;
doedd neb i'w weld, na'i glywed chwaith
nes codi wnaeth y tir.

Eisteddfod yn yr ysgol
i ddathlu'n Nawddsant ni;
cawl â chennin, hetiau du'
gorfoledd yw ein cri!

Guto Havard


Guto Havard-Enillydd y Gadair eleni a Mirain Dafydd gyda'i dyluniad.

Ac ar ôl cystadlu brwd drwy'r dydd, roedd pwyntiau'r 3 thÐ yn agos iawn; ond Ystwyth a gariodd y dydd yn y pen draw. Da iawn i bawb am ymdrechu mor galed i sicrhau Eisteddfod Ysgol lwyddiannus iawn eleni eto. Hoffai'r ysgol ddiolch i'r beirniaid profiadol am eu doethineb yn ystod y dydd, sef Mrs Ann Evans, Mrs Kathleen Evans a Mrs Luned Richards.

Yn ôl y drefn cynhaliwyd cystadleuaeth ychwanegol er mwyn dylunio cadair fach fel gwobr i enillydd y Gadair. Eleni Mirain Dafydd a ddaeth yn fuddugol. Diolch i Mr Carwyn Jones am greu dyluniad Mirain mor effeithiol.

## Gala Nofio

Ar y 11eg o Chwefror cynhaliwyd rownd derfynol gala nofio ysgolion Aberystwyth. Nofiodd y plant yn dda iawn a llwyddodd nifer o'r plant i orffen yn y 3 cyntaf. Da iawn i'r canlynol; Ffion Evans bl 6 (rhydd — 2il), Lucy Ankin bl 6 (cefn — 1af), Joshua Erskine bl 5 (cefn-2il), Lewis Drakeley bl 4 (cefn-2il), Lorna Harper bl 6 (broga-1af), Sion Manley bl 5 (broga-2il), Ffion Wyn bl 6 (pili pala-3ydd), cyfnewid cymysg bechgyn bl 3 a 4-1af), cyfnewid cymysg merched bl 3 a 4 (2il), cyfnewid cymysg bechgyn bl 5 (1af), cyfnewid cymysg merched bl 6-1af. Ardderchog!

## Beicio

Mae plant blwyddyn 6 yn brysur yn gwella a datblygu ei sgiliau ffordd fawr ar eu beiciau. Maent yn paratoi ar gyfer y prawf terfynol er mwyn ennill tystysgrif diogelwch ar y ffordd fawr. Hoffai'r ysgol ddiolch i Mr Malcolm Charlton am yr hyfforddiant.

## Twmpath

Ar y 25ain o Chwefror, trefnwyd Twmpath Dawns yn Neuadd y Pentref i ddathlu Dydd Gŵyl Ddewi. Cafwyd gwledd o ddawnsio gwerin, digon o fwyd a diod. Diolch i Erwyd Howells, Brian Jones a Chymdeithas Rhieni ac Athrawon yr ysgol am drefnu noson wych.

## Yr Eisteddfod Gylch

Da iawn i bawb a fu'n cystadlu yn Eisteddfod Gylch Yr Urdd yn ddiweddar. Llongyfarchiadau mawr i'r tai eitem fuddugol a phob hwyl iddynt yn yr Eisteddfod Ranbarthol ym Mhontrhydfendigaid.


Capteniaid Ystwyth- ty buddugol yr Eisteddfod-Joseph Price a Lily Sedgwick


Hwyl y twmpath


Erwyd a Brian yn cadw rheolaeth

## CYNGOR CYMUNED TIRYMYNACH

Cyfarfu'r Cyngor ar nos Iau 25 Chwefror o dan gadeiryddiaeth y Cyng. Owain Morgan. Ar gychwyn y cyfarfod dymunodd adferiad buan i'r Cyng. Meinir Lowry a fu yn yr ysbyty yn ddiweddar. Hefyd llongyfarchodd y Cyng. Sian Jones a'r teulu ar enedigaeth merch fach.

Wedi adolygu sefyllfa'r meinciau yn y gymuned dywedodd y Clerc bod angen tua hanner cant o ddarnau coed i atgyweirio'r meinciau presennol. Dywedodd hefyd bod yr Awdit am 2008-09 wedi ei gwblhau yn llwyddiannus er bod rhyw glerc bach wedi ceisio taflu cwestiwn neu ddau letchwith, ond i ddim pwrpas. Costiodd yr archwiliad £150 i'r Cyngor. Penderfynwyd holi am brisiau biniau dal halen erbyn y gaeaf nesaf. Y mae eisoes dau neu dri yn yr ardal. Fe'u lleolir weithiau gan y Cyngor Sir lle mae meddyg yn byw. Mae un yn y Dolau, ond mae'r meddyg wedi symud ers tro. Gofynnir hefyd am bris yr halen a'r swnd i'w llenwi.

Ceisiadau Cynllunio. Cais i ganiatáu i'r tymor gwyliau redeg o 1 Mawrth hyd 10 Ionawr yn y flwyddyn ganlynol yn Green Meadow Holiday Park, Clarach. Dim gwrthwynebiad. Cais codi estyniad un llawr i dri bwthyn gwyliau yn Bryncarnedd, Ffordd Clarach. Dim gwrthwynebiad.

Materion Ariannol. Telir bil am y toiledau i Neuadd Rhydypennau sef £578 am yr hanner blwyddyn. £96 am yr ystafell bwyllgor yn yr un neuadd a hefyd £40 am fenthyg y neuadd i gyfarfodydd PACT.

Nid oedd neb am roi ei enw yn yr het i gael mynd i arddwest ym Mhalas Buckingham.

Derbyniwyd ymddiheuriad oddi wrth y Cyng. Sir Paul Hinge ond anfonodd genadwri i ddweud y bydd y darn tir tu ôl i Wern Deg yn cael ei wacau o garafannau cyn diwedd y mis. Mae'r Cyngor Sir wedi clirio'r ysbwriel sydd yn y gysgodfa bws gyferbyn â Garn House ond ein cyfrifoldeb ni'r Cyngor Cymuned fydd ailosod y panel a ddaeth yn rhydd yn ddiweddar o waelod yr adeilad.

Bydd y cyfarfod nesaf ar 25 Mawrth.

## YSGOL PENRHYN-COCH

### Biathlon

Llongyfarchiadau i Mathew Merry a ddaeth yn gyntaf yng Nghystadleuaeth Biathlon GB Cymru yn Abertawe. Derbyniwyd gwybodaeth arbennig ei fod wedi ei ddewis i gynrychioli Cymru ym Mhencampwriaethau Ysgolion Prydain. Cynhelir y Pencampwriaethau ar drac enwog Crystal Palace yn Llundain ar ddydd Sul yr 21ain o Fawrth. Pob dymuniad da iddo.

### Pêl-droedwyr

Rydym ni wedi bod yn teithio i bobman yn chwarae pêl-droed i'r Ganolfan Ddatblygu PG. Rydym yn chware yn erbyn tîmau fel Brazil, Lerpwl a'r Ariannin. Dydd Gwener, byddwn yn chwarae yn erbyn Stoke yn y Drenewydd. Pythefnos yn ôl cawsom gêm yn erbyn Brazilia. Roedd y gêm yn anoddach nag arfer gan nad oedd y bêl yn bownsio llawer. Roedd y gêm yn un gyflym iawn.

Yn erbyn Caerdydd, sgoriais i (Harri) gôl dda o'r linnell hanner ffordd. Sgoriais i (Mathew) ddwy gôl yn erbyn Llanelli. Rydym yn gobeithio chwarae llawer yn rhagor o gêmau cyn diwedd y tymor.

**Harri Horwood a Mathew Merry**

### Ymweliadau Crefyddol

Fel rhan o waith y tymor yn Addysg Grefyddol, bu Dosbarth 3 ar ymweliadau i fannau crefyddol y pentref. Teithiodd y disgyblion i'r Eglwys i weld yr adeilad ac i sgwrsio gyda Mr Livingstone. Yna, aethpwyd i fyny i gapel Horeb o dan arweiniad Y Parchg Judith Morris. Diolch i'r ddau ohonynt am eu parodrwydd i'n derbyn ac am ateb cwestiynau amrywiol. Bydd y disgyblion yn awr yn mynd ati i drafod ac i gymharu'r adeiladau ynghyd â'u cynnwys.

### Gwasanaeth

Braf oedd croesawu Y Parchg Judith Morris i gynnal gwasanaeth boreol yn yr ysgol. Cafwyd anerchiad pwrpasol ganddi.

### Actorion o fri

Teithiodd nifer o ddisgyblion yr ysgol i lawr i Theatr Felin-fach yn ddiweddar i gymryd rhan mewn gweithdai ar gyfer Sioe Ysgolion Cynradd Ceredigion ar gyfer Eisteddfod yr Urdd. Erbyn hyn derbyniwyd gwybodaeth fod Sion Wyn Hurford wedi ei ddewis i fod yn y sioe gyda Zoe Evans a Tomos Wilson wrth gefn. Llongyfarchiadau i'r tri ohonynt.

### Hetiau i Haiti

Yn dilyn y drychineb yn Haiti, penderfynodd y disgyblion fynd ati i godi arian. Cafwyd diwrnod "Hetiau i Haiti" a gwelwyd y plant a'r staff yn gwisgo hetiau amrywiol. Llwyddwyd i godi dros £100 tuag at yr apêl.

### Pêl-rwyd

Aeth tîm pêl-rwyd yr ysgol i lawr i Ganolfan Hamdden Plas-crug i gymryd rhan yn nhwrnament pêl-rwyd yr Urdd, Cylch Aberystwyth. Er na aethpwyd drwodd i'r rowndiau terfynol, cafwyd gêmau agos iawn.

### Pwyllgor Eco

Rydym yn mynd i fesur lefelau'r haul gan ddefnyddio "Campbell stokes sunshine recorder" er mwyn pendefynu y lle mwyaf addas i blannu blodau. O dan arweiniad, rydym yn gobeithio adeiladu melin wynt gan wneud arbrofion cyn penderfynu ar y llecyn delfrydol. Hoffem greu ardal wlyb gyda pwll o ddŵr er mwyn denu bywyd gwyllt megis brogaod ac ati. Rydym wedi prynu tŷ gwydr a gobeithiwn dyfu llysiau ynddo. Byddwn yn cadw un ardal o dir yr ysgol yn wyllt gan adael i'r borfa i dyfu heb ei dorri. Eisioes rydym wedi llwyddo i ennill y wobr efydd ac yn awr awn ati i anelu am y wobr arian.

### Nofio

Bu nifer o ddisgyblion yr ysgol yn cymryd rhan yng Ngala Nofio ysgolion yr ardal. Llwyddodd nifer i ennill drwodd i'r rownd derfynol. Llongyfarchiadau iddynt.

### Dydd Gŵyl Ddewi

Eleni, ni chynhaliwyd Eisteddfod Ysgol ar ddydd Gŵyl Ddewi. Aethpwyd ati eleni i wisgo i fyny mewn dillad traddodiadol Cymreig. Yn ystod y dydd gwnaethpwyd amryw o weithgareddau trawsgwricwlaidd yn seiliedig ar Dewi Sant a'i fywyd.

### Eisteddfod yr Urdd

Eleni, yn ystod cyfarfodydd wythnosol yr Urdd, mae'r disgyblion wedi bod wrthi yn galed yn paratoi ar gyfer Eisteddfod yr Urdd. Gwelwyd bron i bob aelod o'r Urdd wrthi yn paratoi ar gyfer cystadlu boed yn aelodau o'r Côr, partion, wrthi'n dawnsio gwerin a disgo neu wrthi yn gwneud Gwaith Celf a Chrefft. Fel ysgol, rydym yn ffodus iawn i gael criw gweithgar o rieni a theuluoedd estynedig sydd wedi rhoi oriau di-ri i mewn i gefnogi'r disgyblion. Maent yn dal wrthi gyda'r gwaith llaw. Er hynny, mae'r Eisteddfod Gylch wedi pasio a braf ydy nodi fod Parti Dawnsio Gwerin yr ysgol wedi ennill drwodd i'r Eisteddfod Ranbarth. Daeth parti Dawsnio Gwerin arall yr ysgol yn ail a chafwyd y drydedd wobr gyda'r Parti Dawnsio Disgo, y parti llefaru a'r parti Unsain. Llongyfarchiadau mawr iddynt ar eu llwyddiant ac i Mr Dafydd Thomas am hyfforddi'r dawnswyr gwerin a Rebecca Thomas gyda dawnsio disgo. Diolch iddynt ac i'r staff, rhieni a'r disgyblion am yr oriau o waith paratoi (gan gynnwys hanner tymor). Pob dymuniad i'r parti dawnsio yn yr Eisteddfod Ranbarth ym Mhontrhydfendigaid.

Hoffai'r ysgol ddymuno'n dda i Mr a Mrs Dafydd Thomas yn y dyfodol yn eu cartref newydd. Bu'n ffrind da i Ysgol Penrhyn-Coch ar hyd y blynyddoedd gan hyfforddi nifer o Grwpiau dawnsio. Diolch iddo am ei holl waith eleni eto.

# TASG Y TINCER



Gruffudd Ellis

Mae'r gwanwyn wedi dod o'r diwedd! Dyna braf yw gweld y caeau a'r gerddi'n dechrau troi'n wyrdd, clywed yr ŵyn yn brefu, a gweld y cennin Pedr o'r diwedd yn dechrau blodeuo. Gawsoch chi gennin Pedr go iawn ar ddydd Gŵyl Ddewi? Un plastig oedd gen i am nad oedd rhai'r ardd wedi dod i'r golwg. Am siom! Gawsoch chi gyngerdd neu eisteddfod Gŵyl Ddewi yn yr ysgol?


Diolch i bawb fu'n lliwio llun y tîm ar y sled yn y Gêmau Olympaidd. Ddaru chi wylio rhai o'r campau? Rhyfedd meddwl nad oedd digon o eira yng Nghanada ar brydiau, a bod rhaid defnyddio eira ffug! Dyma pwy fu'n lliwio:

Alys a Jac Lansley-Lewis, Llys-y-gwynt, Cae Gwylan, Y Borth; Morgan a Gruffudd Iwan Ebenezer Ellis, Gwaelod-y-garth, Caerdydd; Efa Gregory, 6 Y Deri, Llwyn Afallon, Aberystwyth; Craig Edwards, Y Bwthyn, Y Lôn Groes, Bow Street; Teleri Morgan, Ger y nant, Dolau; Harri Antoninis, Dôl Bebin, Pen-y-garn, Bow Street; Ifan Math Clubb, Yr Hen Ysgoldy, Llandre.

Wel, roedd eich gwaith yn ardderchog, ac mae mor braf cael enwau newydd yn cystadlu. Mi ges i drafferth mawr yn dewis enillydd, ac mi fyddwn wedi hoffi rhoi gwobr yr un i chi i gyd, ond mae'r wobr y tro hwn yn mynd yr holl ffordd i ardal Caerdydd. Ie, ti, Gruffudd sy'n ennill y tro hwn. Llongyfarchiadau mawr i ti!

Ydech chi wedi cael ŵy Pasg eto? Mae'n nhw yn y siopau ers y flwyddyn newydd! Mae'r ŵy yn arwydd o fywyd newydd wrth gwrs, felly mae'n addas iawn ein bod yn dathlu'r Pasg trwy fwyta wyau. Dyma'r adeg pan y fu farw Iesu Grist, ond dathlu ei fod wedi dod yn fyw eto a wnawn ni amser y Pasg. Mae hen hen stori yn dweud os gwnewch chi gadw ŵy sy'n cael ei ddodwy ar ddydd Gwener y Groglith am fil o flynyddoedd, bydd y melynwy yn troi'n ddiamwnt! Mae rhai yn credu y bydd y person sy'n darganfod dau felynwy yn yr un ŵy ar ddydd Sul y Pasg yn troi'n gyfoethog iawn. Mewn sawl gwlad, mae pobl yn dathlu'r Pasg trwy baentio ac addurno wyau. Efallai eich bod chi'n gwneud hyn yn yr ysgol, neu'n cael helfa wyau? Beth sydd orau gennych chi tybed, ŵy wedi ei baentio'n lliwgar, neu ŵy siocled? Rwy'n meddwl mod i'n medru dyfalu'r ateb!

Y mis hwn, beth am liwio llun yr ŵy hardd? Anfonwch eich gwaith ata'i erbyn 1 Ebrill i'r cyfeiriad arferol: Tasg y Tincer, 46 Bryncastell, Bow Street. Ceredigion, SY24 5DE. Ta ta tan toc, a mwynhewch y gwyliau Pasg!



Enw

Cyfeiriad

Oed

Rhif ffôn

Llety
Maes-y-môr
Aberystwyth
o £20 y noson
Ystafell yn unig . Teledu . Te a choffi .
Wi Fi am ddim . Parcio. Shed i feics
www.maesymor.co.uk
Ffon: 01970 639 270

inc
Amrywiaeth eang o lyfrau, cardiau,cerddoriaeth ac anrhegion Cymraeg.
Croesawir archebion gan unigolion ac ysgolion
13 Stryd y Bont
Aberystwyth
01970 626200

GOLCHDY MAES-Y-MÔR
Stryd y Baddon, Aberystwyth
Ar agor 7 diwrnod
8 y bore - 9 yr hwyr
Golchdy derbyn arian
Gwasanaeth glanhau duvets plu neu ffibr - yr un diwrnod
Gwasanaeth golchi blancedi, llenni a.y.y.b.
Digon o le parcio
FFÔN 639270

ISSN 0963-925X
Rhif 327 | MAWRTH 2010